Centre of expertise on child sexual abuse

# Datblygu eich ymateb strategol i gam-drin plant yn rhywiol

## Canllaw ar gyfer partneriaethau diogelu plant





Medi 2025

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Ganolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

**Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:**

- Cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

**Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:**

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn:
**www.csacentre.org.uk**

Ysgrifennwyd y llawlyfr hwn gan Natasha Sabin o Ganolfan CPRh.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 4

2. Templed enghreifftiol ar gyfer eich strategaeth .......... 8

**Rhan A. Deall lle rydych chi a ble rydych chi eisiau cyrraedd .......... 10**

3. Sicrhau ymrwymiad i weledigaeth ar y cyd .......... 11

4. Deall y cyd-destun, yn genedlaethol ac yn lleol/rhanbarthol .......... 13

5. Adolygu eich ymateb presennol .......... 16

6. Adnabod eich gweithlu .......... 23

7. Datblygu eich nodau a'ch amcanion .......... 25

**Rhan B. Elfennau allweddol eich ymateb strategol .......... 28**

8. Atal a tharfu ar gam-drin plant yn rhywiol .......... 29

9. Adnabod cam-drin plant yn rhywiol, a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol .......... 33

10. Ymateb system gyfan i gefnogi pobl y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt .......... 35

11. Datblygu'r gweithlu .......... 44

12. Rhoi cynllun gweithredu at ei gilydd .......... 46

**Rhan C. Rhoi eich strategaeth ar waith .......... 47**

13. Cwblhau eich strategaeth .......... 48

14. Rhoi eich strategaeth ar waith .......... 49

15. Mesur effaith a gwelliant parhaus .......... 50

**Dogfennau cyfeiriol .......... 53**

**Atodiad: Argymhellion o'r adolygiad cenedlaethol o gam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol .......... 54**

1.

# Cyflwyniad

Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod 500,000 o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr (Karsna a Kelly, 2021). Canfuwyd bod cam-drin plant yn rhywiol yr un mor gyffredin â mathau eraill o gam-drin plant (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020), ond mae'n cael ei nodi'n llai aml o lawer mewn asesiadau o anghenion – ac ychydig iawn o blant sy'n cael eu rhoi ar gynllun amddiffyn plant neu gofrestr amddiffyn plant Cymru o dan y categori cam-drin rhywiol (Kewley a Karsna, 2025). Er bod yr heddlu wedi cofnodi dros 100,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol yn 2023/24, dim ond un o bob chwe ymchwiliad gan yr heddlu i droseddau o'r fath a ddaeth i ben gyda chyhuddiad/gwŷs, rhybuddiad neu ddatrysiad cymunedol, neu 'weithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyriad' (Kewley a Karsna, 2025).

Ar ben hynny, mae yna 'loteri cod post' mewn gweithgarwch asiantaethau statudol sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol: mae lle mae plant yn byw yn effeithio ar ba mor debygol yw hi y bydd gwasanaethau plant awdurdodau lleol a'r heddlu yn nodi ac yn ymateb i'w camdriniaeth (Kewley a Karsna, 2025).

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fater difrifol, ond gellir ei atal, a phan fydd yn digwydd, gall cymorth effeithiol ac amserol liniaru ei effeithiau. Felly, mae'n hanfodol bod asiantaethau a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda'i gilydd ar lefel leol a rhanbarthol i ddiogelu plant yn mabwysiadu dull strategol o atal, adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae dull strategol yn galluogi'r cyrff hyn, mewn partneriaeth, i greu darlun clir o angen lleol/rhanbarthol, cryfhau gwaith aml-asiantaeth, a sbarduno gwelliannau sy'n seiliedig ar leisiau plant, dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion, teuluoedd ac ymarferwyr.





.

## 1.1 Pam ein bod wedi cynhyrchu'r canllaw hwn?

Mae canllawiau statudol Llywodraeth y DU *Working Together to Safeguard Children* yn mynnu bod "trefniadau diogelu amlasiantaeth" cadarn yn cael eu sefydlu ar lefel leol neu ranbarthol ledled Lloegr, i sicrhau bod asiantaethau a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant ym mhob ardal yn "glir ynghylch sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles" (Yr Adran Addysg, 2023:23-24). Yng Nghymru, un o'r chwe "egwyddorion sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol i blant" yw bod "pob sy'n gweithio gyda phlentyn yn gweithredu mewn ffordd aml-asiantaethol a chydweithredol er mwyn diogelu a hybu lles plentyn ..." (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2019).

Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant[1] ***"I Wanted Them All to Notice": Protecting Children and Responding to Child Sexual Abuse in the Family Environment,*** gan nodi canlyniadau adolygiad cenedlaethol a oedd yn bennaf yn cynnwys dadansoddiad o dros 170 o adolygiadau cyflym, adolygiadau achosion difrifol ac adolygiadau ymarfer diogelu plant lleol sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol. Roedd yr adolygiad cenedlaethol hwn, a gynhaliwyd gan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Ganolfan CPRh) ar ran y Panel, yn "datguddio materion sylweddol a hirsefydlog" yn yr ymateb i'r cam-drin hwnnw (Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant, 2024:5).

Roedd adroddiad y Panel yn cynnig nifer o argymhellion, rhai ar gyfer Llywodraeth y DU ac eraill ar gyfer asiantaethau a sefydliadau mewn partneriaethau diogelu.[2] Er bod yr adolygiad cenedlaethol yn canolbwyntio ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn berthnasol i bob math o gam-drin plant yn rhywiol.

O blith yr argymhellion ar gyfer partneriaid diogelu, mae Argymhelliad 1 yn galw ar bob partner i *"ystyried canfyddiadau'r adolygiad cenedlaethol hwn a datblygu cynllun gweithredu lleol i ymateb i'w argymhellion oherwydd mae'n effeithio ar ymarfer amlasiantaeth lleol"*.

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i wneud hynny: mae wedi'i gynllunio i gefnogi eich partneriaeth diogelu plant i ddatblygu ymateb strategol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, sy'n mynd i'r afael ag anghenion yn eich ardal ac yn ystyried capasiti ar draws asiantaethau.

Mae atodiad i'r canllaw hwn yn rhestru'r set lawn o argymhellion y Panel ar gyfer partneriaid diogelu. A chyfeirir at yr argymhellion unigol drwy gydol y canllaw, ochr yn ochr ag awgrymiadau ar gyfer camau y gallech eu cymryd i gydymffurfio â nhw.

---

1. Panel annibynnol, a sefydlwyd o dan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017, sy'n comisiynu adolygiadau o achosion diogelu plant difrifol.
2. Er bod cylch gwaith y Panel yn cwmpasu Lloegr yn unig, mae'r strategaeth ddrafft newydd ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru yn nodi bod y "gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad [y Panel] yn hynod drosglwyddadwy i ymarfer yng Nghymru" (Llywodraeth Cymru, 2025:44).

## 1.2 Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae’r canllaw hwn wedi cael ei ddatblygu i gefnogi eich partneriaeth diogelu plant leol neu ranbarthol, a’r asiantaethau a’r sefydliadau unigol perthnasol ynddi, i ddatblygu ymateb cydlynol, strategol sy’n seiliedig ar dystiolaeth i gam-drin plant yn rhywiol. Mae’n rhoi cipolwg gwerthfawr i bartneriaid diogelu arweiniol, partneriaid diogelu dirprwyedig, craffwyr annibynnol, rheolwyr busnes, comisiynwyr, a’r holl asiantaethau/sefydliadau perthnasol sydd â chyfrifoldebau diogelu statudol neu strategol.

P’un a ydych chi’n dechrau llunio eich ymateb strategol neu’n bwriadu mireinio a gwella’r trefniadau strategol presennol, mae’r adnodd hwn yn cynnig awgrymiadau ac enghreifftiau i arwain ymdrechion eich partneriaeth i atal, nodi ac ymateb yn effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol.

## 1.3 Beth fydd yn eich helpu i’w wneud?

Rhaid i’r ymateb strategol i gam-drin plant yn rhywiol gael ei lywio a’i yrru gan angen yn eich ardal chi a rhaid i’ch ymrwymiad i wella’r gwaith o atal ac ymateb i’r cam-drin hwnnw gael ei ddatblygu drwy gydweithio a chydberchnogaeth.

Mae’r canllaw hwn yn amlinellu ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu eich ymateb strategol. Mae’n nodi rhai o elfennau craidd strategaeth leol/ranbarthol effeithiol ar gam-drin plant yn rhywiol, ac yn awgrymu sut gallech chi ddefnyddio’r elfennau hyn i ddatblygu dull strategol sy’n mynd i’r afael ag anghenion yn eich ardal.

Mewn tirwedd ddiogelu fwyfwy cymhleth lle mae cydweithio amlasiantaethol effeithiol yn hanfodol, mae’n darparu fframwaith i helpu eich partneriaeth i wneud y canlynol:

- datblygu gweledigaeth ac iaith gyffredin ynghylch atal a nodi cam-drin plant yn rhywiol, a’r ymateb iddo
- cysoni blaenoriaethau strategol ar draws partneriaid i sicrhau cysondeb a chydlyniad mewn arferion diogelu
- cryfhau cydlyniant gweithredol, gan sicrhau ymyriadau amserol sy’n canolbwyntio ar y plentyn ac sy’n ystyriol o drawma
- comisiynu gwasanaethau’n strategol, ar sail anghenion lleol, profiadau bywyd, a thystiolaeth o’r hyn sy’n gweithio
- gwreiddio atebolrwydd a thryloywder drwy lywodraethu, craffu a monitro perfformiad cadarn.

## 1.4 Strwythur y canllaw

Mae’r bennod nesaf yn rhoi templed enghreifftiol ar gyfer ymateb strategol lleol/rhanbarthol i gam-drin plant yn rhywiol, ac ar ôl hynny rhennir y canllaw yn dair rhan:

- Mae **Rhan A** yn ymwneud â deall lle rydych chi – y cyd-destunau cenedlaethol a lleol/rhanbarthol y mae eich partneriaeth yn gweithredu ynddynt, a’i gweithgarwch presennol yng nghyswllt cam-drin plant yn rhywiol – a lle rydych chi eisiau cyrraedd.
- Mae **Rhan B** yn amlinellu elfennau craidd ymateb strategol effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol, gyda’r nod o’ch helpu i ddatblygu cynllun gweithredu.
- Mae **Rhan C** yn cynnig cyngor ar roi eich ymateb strategol ar waith, o ddrafftio strategaeth i fesur ei heffaith a gweithredu ar yr hyn a ddysgwyd o’i rhoi ar waith.

## 1.5 Beth yw ystyr ‘partneriaeth diogelu plant’?

Mae *Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg* yn dweud bod yn rhaid i fyrddau diogelu rhanbarthol yng Nghymru gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, yr heddlu, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau’r GIG ac (mewn rhai achosion) darparwyr gwasanaethau prawf, ac y gall bwrdd diogelu rhanbarthol hefyd “gynnwys cynrychiolwyr pobl neu gyrff eraill os ydynt yn cyflawni swyddogaethau neu’n cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn perthynas â phlant ... a all fod angen gofal a chymorth yn ardal y bwrdd diogelu” (Llywodraeth Cymru, 2016:43,45).

Gan fod datblygu ymateb strategol i gam-drin plant yn rhywiol yn weithgaredd y dylai pawb sy’n gweithio ar ddiogelu plant fod yn rhan ohono, mae’r canllaw hwn yn defnyddio’r termau ‘**partneriaeth diogelu plant**’, ‘**partneriaeth**’ a ‘partneriaid’ i gyfeirio at yr holl asiantaethau a sefydliadau sy’n gweithio gyda’i gilydd i ddiogelu plant o dan drefniant diogelu amlasiantaethol lleol neu ranbarthol.

## 1.6 Terminoleg arall

Er mwyn symlrwydd, rydym yn defnyddio’r term ‘**plentyn**’ yn y canllaw hwn i olygu unrhyw un o dan 18 oed. Mae’n bwysig cofio bod pobl ifanc yn ogystal â phlant iau yn cael eu cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn defnyddio’r term ‘**dioddefwyr/goroeswyr**’ i ddisgrifio pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod, ar y sail y gallant ystyried eu hunain yn ddioddefwyr y cam-drin hwnnw, yn oroeswyr, neu’n gyfuniad o’r ddau.

Rydym wedi dewis osgoi rhai termau sydd weithiau’n cael eu deall yn wahanol neu sy’n teimlo’n anghyfforddus i rai pobl:

- Yn hytrach na ‘cyflawnwr’, ‘camdriniwr’ neu ‘droseddwr rhyw’, rydym yn siarad (mewn perthynas ag oedolion) am **y person sydd wedi cam-drin y plentyn yn rhywiol** neu eiriad tebyg.
- Yn hytrach na ‘cam-drin gan gyfoedion neu ‘gam-drin rhwng cyfoedion’ gan bobl ifanc dan 18 oed, rydyn ni’n siarad am **ymddygiad rhywiol niweidiol**.
- Yn hytrach na ‘datgelu’, rydym yn cyfeirio at **ddweud** wrth rywun am gam-drin plant yn rhywiol. Gall dweud gynnwys cyfathrebu geiriol a/neu ddieiriau.
- Rydym yn cyfeirio at **blant anabl** yn hytrach na ‘phlant ag anableddau’, i adlewyrchu’r model cymdeithasol o anabledd. Mae hwn yn fodel a ddatblygwyd gan bobl anabl ac mae’n dweud bod pobl yn anabl oherwydd rhwystrau mewn cymdeithas, nid oherwydd eu nam neu eu gwahaniaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod iaith yn bersonol iawn, felly mae’n bwysig holi pob unigolyn sut yr hoffent gael eu hadnabod.
- Rydym yn defnyddio’r term ‘**rhieni**’ i gwmpasu holl rieni/gofalwyr plentyn – gan gynnwys rhieni biolegol, llys-rieni, rhieni mabwysiadol, rhieni maeth a pherthnasau eraill a allai fod yn brif roddwr gofal i’r plentyn, fel neiniau a theidiau.

2.

# Templed enghreifftiol ar gyfer eich strategaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio cam-drin plant yn rhywiol fel a ganlyn:

> *…gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddgar neu weithrediadau nad ydynt yn dreiddgar; gweithgareddau heb gyswllt, fel ymhél plant i edrych ar, neu gymryd rhan mewn, cynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol annerbyniol.* (Llywodraeth Cymru, 2019:4)

Wrth feddwl am sut i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, fodd bynnag, gall fod tuedd i feddwl am rai elfennau o'r broblem yn unig (fel mathau penodol o'r cam-drin hwnnw neu gyd-destunau ar ei gyfer, neu grwpiau penodol o blant). Mae'n bwysig bod eich strategaeth leol/ranbarthol yn ymdrin â phob math o gam-drin plant yn rhywiol, ac yn ymateb i bawb y mae'n effeithio arnynt; mae angen i chi sicrhau'r ffocws ehangaf.

Bwriad y bennod hon yw rhoi rhyw syniad i chi o sut y gallai strategaeth leol/ranbarthol edrych a'r penawdau bras y gallai eu cynnwys, ond rhaid datblygu'r manylion yn eich strategaeth yn ôl yr angen yn eich ardal.

Os ydych eisoes wedi datblygu strategaeth cam-drin plant yn rhywiol ar gyfer eich partneriaeth, awgrymwn eich bod yn adolygu'r penawdau isod i weld a yw eich strategaeth yn gynhwysfawr.

### Pwynt myfyrio

Meddyliwch am yr iaith rydych chi'n ei defnyddio wrth siarad am gam-drin plant yn rhywiol. Rydym yn awgrymu bod eich strategaeth leol/ranbarthol bob amser yn nodi 'cam-drin plant yn rhywiol' yn llawn; os ydych chi'n defnyddio'r byrfodd 'CPRh', mae perygl y bydd yn eich ymbellhau chi a'r darllenydd oddi wrth realiti'r cam-drin hwnnw.

## 1) Cyflwyniad (pwrpas y strategaeth)

Nodi'r angen am strategaeth leol/ranbarthol ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Gosod y cyd-destun drwy amlinellu'r darlun cenedlaethol –gallwch ddefnyddio'r wybodaeth ym **Mhennod 4** i helpu gyda hyn – a thrwy gyfeirio at fframweithiau deddfwriaethol, polisïau ac adolygiadau cenedlaethol perthnasol. Er enghraifft, efallai y byddwch am gyfeirio at ***Gweithdrefnau Diogelu Cymru***, ***Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol***[3] a ***Cadw Dysgwyr yn Ddiogel***.

## 2) Gweledigaeth a rennir a blaenoriaethau strategol

Datganiad clir ar ymrwymiad eich partneriaeth i bawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt, a gwybodaeth am eich blaenoriaethau strategol.

## 3) Llywodraethu (rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd)

Bwriad clir i sicrhau perchnogaeth amlasiantaethol ar y strategaeth, sy'n galluogi'r holl asiantaethau a sefydliadau partner i gyfrannu at ddatblygiadau ac i ddal ei gilydd i gyfrif.

3. Cyn diwedd 2025, disgwylir i'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol gael ei ddisodli gan strategaeth genedlaethol newydd am 10 mlynedd ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol; mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft o'r strategaeth newydd hon (Llywodraeth Cymru, 2025).

## 4) Cyd-destun lleol a rhanbarthol

Disgrifiad clir a chynhwysfawr, yn seiliedig ar dystiolaeth a data, o'r materion sy'n wynebu eich partneriaeth mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol, ac ymateb presennol y bartneriaeth i'r cam-drin hwnnw – gan gynnwys bylchau a gwendidau yn yr ymateb. Bydd **Pennod 4**, **Pennod 5** a **Phennod 6** yn eich helpu i ddatblygu'r cynnwys hwn.

## 5) Nodau strategol a chanlyniadau arfaethedig

Yr hyn yr ydych am i'ch strategaeth ei gyflawni, yn unol â'ch gweledigaeth a'ch blaenoriaethau strategol. Mae **Pennod 7** yn egluro sut y gallwch ddatblygu'r cynnwys hwn.

## 6) Atal a tharfu ar gam-drin plant yn rhywiol

Trosolwg o'r gweithgareddau y bydd eich partneriaeth yn eu cynnal i atal a tharfu ar gam-drin plant yn rhywiol ar draws eich ardal. Bydd **Pennod 8** yn eich helpu i ddatblygu'r cynnwys hwn.

## 7) Adnabod cam-drin plant yn rhywiol

Trosolwg o'r gweithgareddau y bydd eich partneriaeth yn eu cynnal i wella'r broses o adnabod cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae plant mewn perygl o gael eu cam-drin, ar draws eich ardal. Bydd **Pennod 9** yn eich helpu i ddatblygu'r cynnwys hwn.

## 8) Ymateb cefnogol i bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt

Trosolwg o'r gweithgareddau y bydd eich partneriaeth yn eu cynnal i wella'r ymateb i bawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yn eich ardal. Bydd **Pennod 10** yn eich helpu i ddatblygu'r cynnwys hwn.

## 9) Datblygu'r gweithlu

Trosolwg o'r gweithgareddau y bydd eich partneriaeth yn eu cynnal i ddatblygu gweithlu sy'n fedrus, yn wybodus ac yn hyderus i atal, adnabod ac ymateb i bob math o gam-drin plant yn rhywiol. Bydd **Pennod 11** yn eich helpu i ddatblygu'r cynnwys hwn.

## 10) Cynllun Gweithredu

Rhestr fanwl o gamau gweithredu y bydd eich partneriaeth yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r gweithgareddau uchod. Bydd **Pennod 12** yn eich helpu i ddatblygu'r rhestr hon.

## 11) Monitro a gwerthuso

Trosolwg o'ch proses ar gyfer adolygu eich strategaeth, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig, i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn parhau i fod yn gyfredol. Bydd **Pennod 7** yn eich helpu i ddatblygu'r cynnwys hwn.

# Rhan A. Deall lle rydych chi a ble rydych chi eisiau cyrraedd

Er mwyn deall sut gallwch chi ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a’i atal yn effeithiol yn eich ardal, yn gyntaf mae angen i chi asesu beth mae eich partneriaeth eisoes yn ei wneud, beth sy’n gweithio’n dda, a ble mae eich heriau. Yna gallwch fyfyrio ar hynny, a sefydlu’r canlyniadau rydych chi eisiau eu cyflawni ar gyfer pobl y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt.

Mae’r rhan hon o’r canllaw wedi’i chynllunio i’ch helpu i gael darlun eang o’ch gweithgarwch presennol, a bydd Rhan B wedyn yn eich helpu i feddwl sut y gallwch wella’r gweithgarwch hwnnw.

# Sicrhau ymrwymiad i weledigaeth ar y cyd

3.

Cyn i chi feddwl sut dylai ymateb strategol eich partneriaeth i gam-drin plant yn rhywiol edrych, mae angen i chi sicrhau bod ymrwymiad clir i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso'r ymateb hwnnw, ym mhob asiantaeth/sefydliad ac ar draws y bartneriaeth amlasiantaeth.

Mae angen i bob asiantaeth/sefydliad fod yn glir ynghylch beth mae'n ei gyfrannu at yr ymateb cyffredinol, beth mae eraill yn ei gyfrannu, a phwy sy'n atebol am y cyfraniadau hyn.

## 3.1 Arweinyddiaeth

Fel y dywed *Working Together to Safeguard Children*, "Pwrpas trefniadau diogelu aml-asiantaeth yw sicrhau bod sefydliadau ac asiantaethau, ar lefel leol, yn glir ynghylch sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles. Mae hyn yn golygu bod gweledigaeth glir ar y cyd ar gyfer sut i wella canlyniadau i blant yn lleol ar draws pob lefel o angen a phob math o niwed ..." (Yr Adran Addysg, 2023:24). Ac yng Nghymru, mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg* yn dweud bod yn rhaid i bob bwrdd diogelu rhanbarthol yng Nghymru "sicrhau bod protocolau lleol ar waith sy'n cydgysylltu'r gwaith rhyngasiantaethol sy'n cael ei gyflawni yn ardal y bwrdd" (Llywodraeth Cymru, 2016:33).

Mewn geiriau eraill, disgwylir i'ch partneriaeth ddatblygu dull strategol o gydweithio i gyflawni nodau cyffredin. Mae gan uwch arweinwyr rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cyflawni hyn, drwy sefydlu diwylliant lle mae staff yn teimlo'n fedrus ac yn hyderus wrth ganfod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Mae angen i arweinwyr strategol yn eich partneriaeth:

- ddeall, a sicrhau bod eu gweithlu'n deall, bod diogelu yn ddyletswydd a rennir a bod gan bartneriaid diogelu statudol gyfrifoldebau statudol clir fel yr amlinellir mewn canllawiau statudol (Llywodraeth Cymru, 2016) – rhaid iddynt nid yn unig gydweithredu ond hefyd gyfrannu'n weithredol at ymateb lleol/rhanbarthol cydlynol i gam-drin plant yn rhywiol
- sicrhau bod data lleol/rhanbarthol, adolygiadau achos a lleisiau dioddefwyr/goroeswyr yn cael eu defnyddio i dynnu sylw at faint ac effaith cam-drin a'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir
- datblygu gweledigaeth a blaenoriaethau strategol ar y cyd, a dangos sut mae cyfranogiad yn alinio â rhwymedigaethau cyfreithiol, blaenoriaethau rheoli risg a chanlyniadau gwasanaeth pob asiantaeth
- egluro rolau, cyfrifoldebau a strwythurau atebolrwydd ar draws y bartneriaeth, drwy ddatblygu grŵp llywio i sicrhau gwaith amlasiantaeth effeithiol ac ystyrlon.

## 3.2 Recriwtio grŵp llywio eang a chynrychioladol

Eich cam nesaf wrth ddatblygu eich ymateb strategol ddylai fod sefydlu grŵp neu fwrdd i oruchwylio ei ddatblygiad a'i ddarpariaeth. Mae grŵp llywio effeithiol yn:

- darparu arweinyddiaeth a chydlyniad penodol ar gyfer datblygu a darparu ymateb strategol i gam-drin plant yn rhywiol
- dod â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r bartneriaeth ddiogelu at ei gilydd, gan sicrhau bod gan bob asiantaeth/sefydliad partner gynrychiolaeth ddigonol (o ran ehangder eu rolau a'u statws) i gyfrannu'n effeithiol at oruchwylio cynnydd, cysoni gweithgarwch a chwalu rhwystrau.
- sicrhau atebolrwydd, galluogi cydberchnogaeth ar flaenoriaethau, a chefnogi dull gweithredu cyson ar draws yr asiantaethau/sefydliadau partner
- darparu lle penodol i ddehongli canllawiau cenedlaethol, adolygu data lleol/rhanbarthol, monitro gweithredu, a sicrhau bod yr ymateb strategol yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i hysbysu gan ddioddefwyr/goroeswyr, ac yn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Wrth recriwtio aelodau eich grŵp llywio, ceisiwch sicrhau:

- bod lleisiau dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu cynrychioli
- mae gan aelodau ddigon o awdurdod i wneud penderfyniadau ac ymrwymo i gamau gweithredu
- mae asiantaethau/sefydliadau yn enwebu cynrychiolwyr a enwir, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gyson
- mae'r aelodau'n cynrychioli'n fras yr holl asiantaethau/sefydliadau yn eich partneriaeth
- mae gan rai aelodau brofiad blaenorol o reoli newid neu ymwneud â rhyw fath o weithgarwch newid.

Efallai y byddwch hefyd am ystyried recriwtio aelodau o'r grŵp llywio o'r tu allan i'r bartneriaeth, fel cynrychiolydd o faes iechyd y cyhoedd.

# 4. Deall y cyd-destun, yn genedlaethol ac yn lleol/rhanbarthol

4.

Y cam nesaf wrth ddatblygu ymateb strategol i gam-drin plant yn rhywiol yn eich ardal chi yw darganfod cymaint ag y gallwch am y cam-drin hwnnw: y cyd-destunau lle mae'n digwydd a'r amrywiaeth o bobl y mae'n effeithio arnynt, yn lleol/rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall y gweithgareddau y mae angen eu gwneud yn eich ardal i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, ac i ddarparu cymorth i bawb y mae hyn yn effeithio arnynt.

## 4.1 Ar ba ffurfiau y gall cam-drin plant yn rhywiol fod?

Gall plant gael eu cam-drin yn rhywiol mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan wahanol bobl ac mewn gwahanol leoedd a sefyllfaoedd, gan gynnwys ar-lein. Dylai eich ymateb strategol ymdrin â'r ystod lawn o gam-drin plant yn rhywiol, yn hytrach na chyfeirio at ffurfiau penodol fel camfanteisio'n rhywiol yn unig: er bod codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn bwysig, ni all eich strategaeth weithio i bawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt oni bai ei bod yn cydnabod ac yn enwi'n benodol yr holl gyd-destunau lle mae plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae mathau o gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys:

- cam-drin plant yn rhywiol gan oedolion yn rhwydwaith y teulu (gan gynnwys cymdogion a ffrindiau'r teulu)
- cam-drin plant yn rhywiol gan oedolion dibynadwy eraill
- ymddygiad rhywiol niweidiol gan frodyr a chwiorydd
- ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant neu bobl ifanc eraill
- camfanteisio'n rhywiol ar blant
- cam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol mewn cyd-destunau ar-lein; mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y gall technolegau digidol fod yn rhan o bron pob math o gam-drin plant yn rhywiol..

Mae cyfres **Negeseuon Allweddol o Ymchwil** y Ganolfan CPRh yn darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol i'ch helpu i ddatblygu eich dealltwriaeth o'r ffurfiau a'r cyd-destunau hyn. Rydym hefyd wedi datblygu ***Teipoleg Newydd o Droseddau Cam-drin Plant yn Rhywiol***, sy'n amlinellu mathau o ymddygiad troseddol gan oedolion.

Mae hefyd yn hanfodol gwerthfawrogi'r gorgyffwrdd rhwng y gwahanol gyd-destunau hyn, fel nad yw eich ymateb strategol yn defnyddio agwedd ynysig. Er enghraifft, mae astudiaethau ymchwil wedi canfod:

- roedd bron i hanner y plant sy'n wynebu risg uchel o gamfanteisio rhywiol eisoes wedi profi cam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys treisio), y tu mewn neu'r tu allan i amgylchedd y teulu, cyn 16 oed (Hallett et al, 2019)
- roedd tua hanner y fideos/delweddau cam-drin plant yn rhywiol a gafodd eu postio ar-lein wedi cael eu ffilmio mewn lleoliadau teuluol (Salter et al, 2021).

## 4.2 Ar bwy mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio?

Wrth feddwl am gam-drin plant yn rhywiol, mae pobl yn aml yn ystyried y plentyn sydd wedi cael ei gam-drin yn unig, ond er bod yn rhaid cydnabod ac ymateb i'r plant hyn, mae angen i chi hefyd gydnabod sut gall eich partneriaeth gefnogi pawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys:

- plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol
- plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol
- rhieni, brodyr a chwiorydd a theulu ehangach plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol
- oedolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod
- plant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol
- teuluoedd plant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiolr
- oedolion sydd mewn perygl o gam-drin plant yn rhywiol
- oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys drwy edrych ar ddelweddau o gam-drin plant yn rhywiol)
- teuluoedd oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol.

Unwaith eto, gall ein cyfres 'Negeseuon Allweddol o Ymchwil' – ac yn enwedig y crynodebau sy'n ymdrin ag **effeithiau cam-drin plant yn rhywiol**, **oedolion sy'n cam-drin plant yn rhywiol**, ac **ymddygiad rhywiol niweidiol** – eich helpu i ddeall sut mae hyn yn effeithio ar rai o'r grwpiau hyn.



## 4.3 Pwy sy'n byw yn eich ardal chi?

Er y bydd angen i'ch strategaeth ymateb i'r holl grwpiau uchod, ac i gam-drin plant yn rhywiol yn yr holl gyd-destunau uchod, bydd deall poblogaeth eich ardal yn eich helpu i ddatblygu ymateb strategol a all ddiwallu anghenion lleol/rhanbarthol, ac yn enwedig anghenion pobl mewn grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed a/neu ar y cyrion.

Er enghraifft, faint o blant sy'n derbyn gofal sydd yn eich ardal chi? Faint o blant sy'n destun cynlluniau amddiffyn plant, cymorth teulu neu ymyriadau eraill oherwydd cam-drin (nid cam-drin rhywiol yn unig) neu esgeulustod? Beth yw cyfansoddiad ethnig poblogaeth plant eich ardal?

Drwy ateb y cwestiynau hyn, gallwch nodi gwaith y bydd angen i'ch strategaeth ganolbwyntio arno.

Mae'n bwysig deall bod rhai grwpiau o blant yn arbennig o agored i gael eu cam-drin yn rhywiol (gan gydnabod bod pob plentyn yn agored i'r cam-drin hwn), ac mae rhai yn wynebu rhwystrau penodol rhag dweud wrth unrhyw un am y cam-drin.

Mewn arolwg mawr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020):

- Dywedodd dros hanner yr oedolion a ddisgrifiodd gael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod eu bod hefyd wedi profi mathau eraill o gam-drin yn ystod eu plentyndod – gydag un o bob chwech yn dweud eu bod wedi cael eu cam-drin yn gorfforol, yn emosiynol ac yn rhywiol, a'u bod wedi gweld trais domestig,[4] pan yn blant.
- Roedd y rhai a oedd wedi byw mewn cartref lle'r oedd gan rywun anabledd neu broblem iechyd meddwl hirdymor, neu rywun a oedd wedi camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, deirgwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol na'r rhai nad oeddent wedi gwneud hynny.
- Roedd oedolion a oedd wedi byw mewn cartref gofal fel plant bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.
- Roedd oedolion a oedd wedi cael eu hesgeuluso yn ystod eu plentyndod bum gwaith yn fwy tebygol nag oedolion eraill o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol hefyd.

Mae plant anabl hefyd yn wynebu risg uwch o gam-drin rhywiol na phlant sydd ddim yn anabl (Jones et al, 2012). Maen nhw'n fwy dibynnol ar rai sy'n rhoi gofal, yn wynebu mwy o rwystrau o ran cyfathrebu, ac mae'n llai tebygol y bydd eu camdriniaeth yn cael ei hadnabod, yn enwedig mewn sefyllfa deuluol.

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd ar draws pob ethnigrwydd, ond mae dioddefwyr/goroeswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (yn enwedig y rheini mewn 'cymunedau caeedig' neu sydd â statws mewnfudo ansicr) yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol rhag dweud wrth unrhyw un, cael eu credu, a chael gafael ar a derbyn cymorth gan wasanaethau prif ffrwd (Ali et al, 2021).

Mae bechgyn yn llai tebygol na merched o ddweud wrth rywun eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (Priebe a Svedin, 2008).

4. Dyma'r derminoleg a ddefnyddir yn arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ond rydym yn cydnabod nad yw plant sy'n wynebu trais domestig yn dystion goddefol.

# 5. Adolygu eich ymateb presennol

Nawr bod gennych syniad o'r lefel a'r mathau o angen yn eich ardal, mae angen i chi ddatblygu dealltwriaeth glir a chynhwysfawr o'r ymateb presennol – o fewn a'r tu allan i'ch partneriaeth – i gam-drin plant yn rhywiol yn eich ardal. Bydd hyn yn eich helpu i asesu pa mor dda mae'r gweithgarwch presennol hwn yn diwallu'r angen hwnnw, a lle mae bylchau.

Cofiwch fod gofyniad statudol arnoch i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon. Mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg* yn dweud y dylai byrddau diogelu rhanbarthol yng Nghymru "sicrhau effeithiolrwydd y mesurau [diogelu] a gyflwynir yn unigol neu fel rhan o' i gyfrifoldeb [ar y cyd]" (Llywodraeth Cymru, 2016:33).

## 5.1 Sut mae eich partneriaeth ar hyn o bryd yn adnabod plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol neu sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol?

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fath cudd o gam-drin, ac mae'n bwysig cydnabod mai dim ond lleiafrif bach o'r cam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn cymdeithas y mae asiantaethau fel yr heddlu a gwasanaethau plant yn ei nodi. Mae'r Ganolfan CPRh yn amcangyfrif bod o leiaf 10% o blant yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cam-drin yn rhywiol cyn 16 oed a hŷn, ond mae lefel y cam-drin plant yn rhywiol a gofnodir mewn data swyddogol yn is o lawer na'r lefel hon. (Am dystiolaeth arolwg ddiweddaraf ar nifer yr achosion, gweler ein hadroddiad 2021 ***The Scale and Nature of Child Sexual Abuse: Review of Evidence***.)

### Hyb Deall Data

Deall y bwlch rhwng maint cam-drin plant yn rhywiol yn eich ardal a lefel y cam-drin rydych chi'n ei nodi ar hyn o bryd yw'r cam cyntaf tuag at feddwl am sut gallwch chi weithio i gau'r bwlch hwnnw.

Gall **Hyb Deall Data'r** Ganolfan CPRh – sef dangosfwrdd rhyngweithiol sy'n eich galluogi i ganfod, deall a defnyddio data swyddogol ar gam-drin plant yn rhywiol – eich helpu gyda hyn. Gall gynhyrchu llun 'copa mynydd iâ' sy'n dangos yr anghysondeb rhwng nifer y plant sy'n debygol o fod yn cael eu cam-drin yn rhywiol yn eich ardal[5] a faint gaiff ei nodi gan asiantaethau lleol/rhanbarthol.

Mae'r Hyb Deall Data hefyd yn defnyddio siartiau a mapiau rhyngweithiol er mwyn i chi allu gweld:

- data blynyddol gan wasanaethau plant eich awdurdod lleol ar ba mor aml ymaent yn nodi cam-drin rhywiol fel pryder yn eu hasesiadau o blant, ac yn cofnodi cam-drin rhywiol fel y prif reswm dros roi cynllun amddiffyn plant i blentyn (neu, yng Nghymru, ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant)
- data blynyddol gan heddlu eich partneriaeth ar nifer y troseddau cam-drin plant yn rhywiol y mae'n eu cofnodi.

Ym mhob achos, gallwch gymharu eich awdurdod(au) lleol neu'ch heddlu ag eraill, ac olrhain newidiadau yn nata eich ardal dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gweld sut mae'r ffigurau wedi newid dros amser yn caniatáu i chi asesu, er enghraifft, a yw ymyriadau neu fentrau wedi gwneud gwahaniaeth i adnabod plant sydd wedi cael, sy'n cael, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol

Ar ben hynny, mae'r Hyb yn dangos i chi faint o wasanaethau cymorth ar draws y sectorau gwirfoddol, statudol a phreifat sy'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn eich ardal. Mae manylion y gwasanaethau hyn ar gael ar ein Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth (gweler adran 5.2).

5. Mae'r Hyb Deall Data yn amcangyfrif nifer yr achosion yn lleol drwy gymryd ein hamcangyfrif o nifer yr achosion ledled Cymru a Lloegr a'i gymhwyso i'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, gallai amgylchiadau lleol olygu bod gwir lefel cam-drin plant yn rhywiol yn eich ardal leol yn wahanol.


Select a police force area
Avon and Somerset
This page compares the estimated scale of child sexual abuse in your local area with the official data on child sexual abuse recorded by your selected police force and the local authorities within the police force area.
Below the iceberg you can see how many support services respond to sexually abused children in your police force area.
For data sources and further information, click here.
Click here to see detailed data from local authorities within your police force area.
Main menu
Far more children are sexually abused than statutory services identify in Avon and Somerset
Child sexual abuse: Data Insights Hub
csacentre.org.uk
17 children placed on a child protection plan due to child sexual abuse
1,239 children assessed at risk of sexual abuse*
2,470 child sexual abuse offences recorded by the police
14,150
children are estimated to be sexually abused every year**
Sources: Home Office, Police recorded crime and outcomes, 2022/23; Department for Education, Characteristics of Children in Need, 2022/23, Welsh Government, Children receiving care and support, 2022/23 *Includes assessments regarding concerns of child sexual abuse and exploitation. **Estimate calculated using single-year prevalence estimates by age group (Radford et al. 2011, Childhood abuse and neglect in the UK today) and the Office for National Statistics mid-year population estimates, 2022. Scale figure rounded to nearest 10.
There are 10 support services that respond to the sexual abuse of children living in Avon and Somerset.
Microsoft Power BI
Pages


Local crime data
Child sexual abuse: Data Insights Hub
csacentre.org.uk
Select a police force area
Avon and Somerset
Select the indicator
All child sexual abuse and image offences
Child sexual abuse image offences
Child sexual abuse offences
This page uses official data from the Home Office.
The top chart shows the number of offences recorded by your selected police force per 1,000 children living in the area, compared with demographically similar police force areas ('most similar forces'). The number indicates the level of identification or recording of child sexual abuse offences, not the scale of that abuse.
The second chart presents the actual number of child sexual abuse offences recorded by your selected police force over time, including non-recent offences recorded in a given year.
Not all child sexual abuse offences are visible in publicly available data - see national data.
For more information about this data, see the Technical note.
Main menu
National data
Avon and Somerset & most similar forces (All child sexual abuse and image offences)
Kent 11.1
Hampshire 11.0
Staffordshire 11.0
Derbyshire 10.8
Essex 9.1
Sussex 8.6
Avon and Somerset 8.1
Hertfordshire 5.5
Number per 1,000 children
National Average: 9.46
Trends over time: Avon and Somerset (All child sexual abuse and image offences)
2012/13 561
2013/14 849
2014/15 801
2015/16 1,303
2016/17 1,781
2017/18 1,892
2018/19 1,886
2019/20 1,865
2020/21 1,952
2021/22 2,681
2022/23 2,470
Number of offences recorded each year
Microsoft Power BI
Pages


Local safeguarding data
Child sexual abuse: Data Insights Hub
csacentre.org.uk
Select a local authority
Barking and Dagenham
Select the indicator
Assessments: child sexual abuse
Assessments: child sexual exploitation
Child protection plan/register: child sexual abuse
This page draws on official data from the Department for Education and the Welsh Government. Data on assessments is available for English local authorities only.
The first chart shows the number of assessments or child protection plans/registrations related to child sexual abuse in your selected local authority per 1,000 children living in the area. This number is compared with demographically similar local authorities ('statistical neighbours') in England, or with geographical neighbours in Wales.
The second chart presents the actual number of assessments or child protection plans/registrations related to child sexual abuse in your selected local authority over time.
Very low numbers are marked as 'C' for data protection reasons.
The numbers indicate the level of identification or recording of child sexual abuse, not the scale of that abuse. For more information about this data, see the Technical note.
Main menu
National data
Barking and Dagenham & statistical neighbours (Child protection plan/register: child sexual abuse)
Nottingham 0.51
Coventry 0.38
Barking and Dagenham 0.33
Luton 0.27
Birmingham 0.17
Enfield 0.11
Manchester 0.06
Greenwich C
Newham C
Slough C
Waltham Forest C
National Average: 0.20
Number per 1,000 children
Trends over time: Barking and Dagenham (Child protection plan/register: child sexual abuse)
2012/13 13
2013/14 C
2014/15 15
2015/16 8
2016/17 6
2017/18 C
2018/19 27
2019/20 6
2020/21 24
2021/22 26
2022/23 21
Number per year

## 5.2 Sut mae eich partneriaeth yn ymateb ar hyn o bryd i wahanol grwpiau y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt?

Gall cam-drin plant yn rhywiol gael effeithiau difrifol a gydol oes ar ddioddefwyr/goroeswyr a'r rhai o'u cwmpas, ac mae'n arwain at gost ariannol enfawr ar gymdeithas (Radakin et al, 2021). Fodd bynnag, gall camau gweithredu i fynd i'r afael â'r cam-drin hwn a'i effeithiau – drwy gefnogi'r gwahanol bobl y mae'n effeithio arnynt, a thrwy ei atal rhag digwydd – fod yn effeithiol iawn, ar yr amod bod yr elfennau cywir ar waith. Mae'n bwysig cofio bod angen cymorth ar bob un o'r grwpiau a nodir yn adran 4.2 a bod ganddynt amrywiaeth o anghenion gwahanol – felly mae angen amrywiaeth o wasanaethau cymorth arnynt.

Er mwyn sicrhau eich bod yn gallu diwallu'r anghenion cymorth gwahanol hynny, mae angen i chi ddeall eich ymateb lleol/rhanbarthol presennol i bob grŵp, ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol/cymunedol, a lle mae'r bylchau yn y ddarpariaeth cymorth. Gallwch ddefnyddio **Matrics Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol** y Ganolfan CPRh i nodi'r amrywiaeth o gymorth y dylid ei ddarparu i bob grŵp, ac i gofnodi a yw'r cymorth hwnnw'n cael ei ddarparu a sut.

Dylech hefyd geisio ateb y cwestiynau canlynol:

- **Sut mae gwasanaethau statudol yn canfod ac yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn ymarferol?**

  Pa mor gymwys yw gweithwyr proffesiynol rheng flaen mewn gwasanaethau statudol i adnabod arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol, ymateb yn sensitif, a dilyn gweithdrefnau diogelu yn gyson?

  A oes cydberchnogaeth a llwybr clir ar draws gwasanaethau statudol ar gyfer plant y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt?

- **A oes protocolau clir ar gyfer atgyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau statudol?**

  Mae ymateb effeithiol yn dibynnu ar systemau cadarn sy'n galluogi rhannu pryderon yn amserol a chydlynu ymyriadau. Pa mor dda mae'r mecanweithiau hyn yn cael eu deall a'u defnyddio pan fydd pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol?

- **A yw gwasanaethau statudol sy'n cefnogi plant a theuluoedd yn deg?**

  Sut mae ymatebion yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau (e.e. bechgyn, plant ag anableddau, plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, plant mewn gofal)? A yw gwasanaethau statudol yn mynd ati i nodi ac ymateb i'r risgiau penodol o gam-drin, a'r rhwystrau rhag dweud wrth unrhyw un amdano, y mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu?

- **Pa gymorth sydd ar gael gan wasanaethau statudol pan fydd plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, neu pan fydd cam-drin rhywiol wedi effeithio arno?**

  Mae cyfranogiad statudol yn aml yn dod i ben ar ôl rheoli risgiau diogelu uniongyrchol, ond mae angen cymorth therapiwtig, emosiynol neu ymarferol tymor hwy ar lawer o bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt. Sut mae asiantaethau statudol yn sicrhau parhad gofal ac yn osgoi bylchau mewn cymorth?

- **Pa mor hawdd yw hi i bobl ledled eich ardal gael gafael ar yr amrywiaeth o gymorth (gan gynnwys cymorth arbenigol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol) sydd ei angen arnynt?**

  Sut gall dioddefwyr/goroeswyr, eu teuluoedd a phobl sydd mewn perygl o gam-drin plant yn rhywiol gael gwybod am y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael neu gael eu hatgyfeirio atynt?

  A yw rhai grwpiau'n llai tebygol o gael gwybod am y gwasanaethau hynny neu gael eu hatgyfeirio atynt?

  Os ydynt, beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwybod am y gwasanaethau hynny neu gael eu hatgyfeirio atynt?

  A yw amseroedd agor y gwasanaethau yn hygyrch i bawb, gyda darpariaeth gyda'r nos ac ar benwythnosau?

- **Faint o bobl sydd ar restrau aros am gymorth arbenigol, ac am ba hyd y maent yn aros?**

- **A oes cymorth penodol ar gael yn eich ardal ynghylch gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol?**

  Yn benodol, a oes cymorth ar gael i ddiwallu anghenion penodol pobl sydd wedi profi cam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol, cam-drin mewn cyd-destunau ar-lein neu sefydliadol, ymddygiad rhywiol niweidiol, neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant?

- **A yw'r cymorth sydd ar gael yn eich ardal yn diwallu anghenion pobl y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt, gan gynnwys anghenion penodol y grwpiau canlynol?**

  Pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys Sipsiwn, Teithwyr a phobl o Ddwyrain Ewrop), ac yn enwedig y rheini nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

  Pobl ag anabledd corfforol.

  Pobl niwrowahanol, a'r rheini sydd ag anableddau dysgu.

  Merched/menywod, a bechgyn/dynion.

  Lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol.

  Pobl sy'n cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd, neu sy'n ystyried eu hunain yn drawsryweddol.

- **A yw'r cymorth sydd ar gael yn eich ardal yn cyfateb i'r angen amdano?**

  Dylai ein Hyb Deall Data a'n Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth allu eich helpu i gasglu gwybodaeth a all lywio eich ateb i'r cwestiwn hwn.




## Gwasanaethau Cymorth

I wneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r holl wasanaethau cymorth sy'n gweithio yn eich ardal, a natur eu darpariaeth a'r bobl maen nhw'n eu cefnogi, gallwch chwilio drwy **Gyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth** y Ganolfan CPRh.

Mae'r cyfeiriadur yn ffordd hygyrch o chwilio drwy fwy na 450 o wasanaethau ledled Cymru a Lloegr ar gyfer plant a theuluoedd y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt. Drwy roi cod post neu enw tref neu ddinas, gallwch weld enwau llawn, cyfeiriadau gwefannau a manylion cyswllt gwasanaethau yn yr ardal, ynghyd â gwybodaeth allweddol am bob un ohonynt. Gallwch hefyd hidlo eich canlyniadau chwilio os oes gennych ddiddordeb mewn mathau penodol o wasanaethau cymorth, fel.

- gwasanaethau sy'n cefnogi plant, oedolion a/neu deuluoedd
- gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth i grwpiau penodol ar sail eu rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd.

Mae'r cyfeiriadur yn cynnwys yr holl wasanaethau rydym yn gwybod amdanynt ar draws y sectorau gwirfoddol, statudol a phreifat sy'n cefnogi dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, plant y credir eu bod mewn perygl o wynebu'r cam-drin hwnnw, a/neu eu teuluoedd, ar yr amod bod y gwasanaethau hynny'n bodloni'r meini prawf canlynol.

- Mae ganddynt ffocws therapiwtig neu lesiant – sy'n golygu eu bod yn darparu cymorth fel therapi a chwnsela, gwaith seico-addysgol, cymorth eiriolaeth (fel gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol i Blant), cymorth gan gymheiriaid, llinellau cymorth neu wasanaethau sgwrsio, gofal preswyl i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, gwaith/ymyriadau teuluol, a/neu gymorth yn ystod y broses gyfreithiol.
- Darperir y cymorth hwn yn rhad ac am ddim i bobl sy'n byw yng Nghymru neu Loegr (hyd yn oed os yw'r gwasanaeth yn codi tâl ar asiantaethau atgyfeirio am ei gymorth).

Mae rhai gwasanaethau ar y cyfeiriadur yn canolbwyntio'n benodol ar gam-drin plant yn rhywiol, mae rhai'n gweithio yn y sector trais rhywiol ehangach (e.e. canolfannau Argyfwng Trais Rhywiol), ac mae gan eraill gylch gwaith mwy generig (e.e. gwasanaethau sy'n cefnogi plant sydd wedi cael eu hecsbloetio neu eu masnachu, lle mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn wasanaeth penodol).

Mae gwasanaethau diogelu anarbenigol yn y sector statudol wedi'u heithrio o'r cyfeirlyfr, yn ogystal â gwasanaethau sy'n:

- canolbwyntio ar atal cam-drin plant yn rhywiol (e.e. rhaglenni addysg/codi ymwybyddiaeth, rhaglenni allgymorth, ymgyrchoedd neu wasanaethau sy'n canolbwyntio ar darfu)
- codi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaeth am y gefnogaeth a ddarperir
- darparu asesiad meddygol yn unig heb unrhyw gymorth therapiwtig/lles ychwanegol
- canolbwyntio'n benodol ar fathau eraill o gam-drin fel anffurfio organau cenhedlu benywod
- cefnogi plant sydd â materion sy'n effeithio ar eu lles neu eu diogelwch, ond heb ddarparu cymorth penodol sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol – mae enghreifftiau o'r sefydliadau hyn yn cynnwys Mind a'r Samariaid.

## Cyllido a chomisiynu gwasanaethau cefnogi

Bydd aelodau eich partneriaeth yn ymwneud â chyllido a/neu gomisiynu gwasanaethau i ddarparu cymorth yn lleol/rhanbarthol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol.

Mae gwneud penderfyniadau ynghylch ariannu a chomisiynu yn gofyn am gynllunio gofalus ac ystyriol. Nid yw lefelau presennol y ddarpariaeth yn bodloni anghenion y nifer fawr o bobl y mae angen cymorth arnynt, gan gyflwyno her strategol frys i gyllidwyr a chomisiynwyr.

Mae canllaw'r Ganolfan CPRh, ***Ariannu a Chomisiynu Gwasanaethau Cam-drin Plant yn Rhywiol***, wedi'i gynllunio i feithrin dealltwriaeth o ble a sut i fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn y ddarpariaeth. Mae'n cyfeirio at bob cam o'r cylch comisiynu: dadansoddi'r angen lleol/rhanbarthol am gymorth, cynllunio ymyriadau wedi'u targedu, darparu gwasanaethau cymorth effeithiol, ac adolygu canlyniadau'n drylwyr. Mae'r canllaw wedi'i anelu at gyllidwyr a chomisiynwyr ar draws ystod eang o drefniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol, a Byrddau Gofal Integredig.

Mae rhagor o wybodaeth am gomisiynu gwasanaethau ar gael ym **Mhennod 10**.

## 5.3 Pa gamau ydych chi'n eu cymryd ar hyn o bryd i atal/ tarfu ar gam-drin plant yn rhywiol?

Bydd llenwi ein Matrics Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yn eich galluogi i weld pa gymorth sy'n cael ei ddarparu yn eich ardal ar hyn o bryd i oedolion sydd mewn perygl o gam-drin plant yn rhywiol, a'r rheini sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol yn y gorffennol, i'w hatal rhag (ail)droseddu, a'r cymorth i blant sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae hefyd yn bwysig asesu a yw'r ymyriadau hyn yn cael eu hystyried yn effeithiol yn lleol.

Yn ogystal, defnyddir amrywiaeth o fesurau tarfu gan yr heddlu, weithiau ochr yn ochr ag asiantaethau eraill, i ymyrryd ag ymddygiadau, rhwydweithiau, ffyrdd o fyw ac arferion pobl yr ystyrir eu bod yn achosi risg, fel eu bod yn cael llai o gyfle i gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- gorchmynion troseddol a sifil gwaharddol a hysbysiadau sy'n cyfyngu ar ymddygiadau penodol; gall y rhain darfu ar gyswllt rhwng unigolyn a amheuir a phlentyn, a helpu i atal cam-drin pellach yn y tymor hwy
- marcwyr cuddwybodaeth neu 'fflagiau' Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC), i dagio cerbydau, unigolion dan amheuaeth, lleoliadau, pobl agored i niwed a digwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol
- adnabod platiau rhif yn awtomatig (ANPR), sy'n gallu sbarduno camau gweithredu os bydd camera'n cael ei ysgogi
- llythyrau rhybuddio unigolion dan amheuaeth, y gellir eu rhoi mewn achosion lle mae amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol ond bod diffyg tystiolaeth
- y Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-Drin Plant yn Rhywiol, sy'n rhoi'r hawl i'r heddlu ddweud wrth y dioddefwr posibl neu ei riant/rhieni pan ganfyddir risg i blentyn, a'r 'hawl i ofyn' i'r cyhoedd am wybodaeth am berson y mae ganddynt bryderon yn ei gylch. Dim ond unigolion ag euogfarnau am droseddau rhywiol sy'n cael eu datgelu, a dim ond pan fydd risg yn cael ei nodi i'r plentyn penodol dan sylw.

Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau eraill o fesurau tarfu yn ein hadroddiad ymchwil ***Police Disruption of Child Sexual Abuse: A Scoping Review***.

Darganfyddwch pa fesurau tarfu a ddefnyddir yn eich ardal, a pha mor eang y cânt eu defnyddio. A ystyrir eu bod yn gweithio'n dda? Pam (neu pam ddim)? A pha mor dda y mae swyddogion yr heddlu ac ymarferwyr eraill yn eich partneriaeth yn eu deall?

## 5.4 Cofnodion lleol/rhanbarthol o ddigwyddiadau difrifol

Ffordd arall o gael dealltwriaeth o'ch angen lleol/rhanbarthol a meysydd i'w datblygu yw adolygu unrhyw hysbysiadau am ddigwyddiadau difrifol ac adolygiadau ymarfer diogelu plant yn eich ardal. Gallwch ddod o hyd i'r rhain drwy chwilio drwy **Gasgliad Adolygu Achosion Cenedlaethol** yr NSPCC.

Bydd deall y manylion yn yr adroddiadau a'r adolygiadau hyn yn eich helpu i feddwl am sut y gallwch fynd i'r afael â heriau lleol/rhanbarthol penodol yn ymarferol.

Ond cofiwch bwysigrwydd ymatebion gweithredol yn hytrach nag adweithiol i gam-drin plant yn rhywiol: mae'n bwysig defnyddio'r wybodaeth o adroddiadau ac adolygiadau yn eu cyd-destun ac fel rhan o'r darlun ehangach a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Mae angen i chi hefyd fod yn ymwybodol o'r effaith drawmatig y gall adolygu digwyddiadau difrifol o'r fath ei chael, a bod yn sensitif i drawma unigol, trawma tîm a thrawma cymunedol.

# Adnabod eich gweithlu

6.

> *Datgelodd ein dadansoddiad nad oedd ymarferwyr yn aml yn deall cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu ac yn enwedig yr arwyddion a'r dangosyddion a allai ddangos bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol gan rywun yn eu teulu. (Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant, 2024:90)*

Mae **Argymhelliad 2** y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant yn galw ar bartneriaid diogelu i "gymryd rhan mewn asesiad anghenion hyfforddi aml-asiantaeth, er mwyn sicrhau bod eu hymarferwyr yn gallu cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y maes hwn ...". Dylai'r gweithgaredd hwn fod yn ganolog i ddatblygu eich ymateb strategol i gam-drin plant yn rhywiol.

## 6.1 Cynnal asesiad o anghenion hyfforddi aml-asiantaeth

Dylai eich asesiad o anghenion gynnwys archwiliad o'r ddarpariaeth hyfforddiant yn ogystal ag arolwg staff. Yn y cyntaf, ceisiwch fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Pa hyfforddiant cyn-gymhwyso ar gam-drin plant yn rhywiol sydd/sydd wedi bod ar gael i ymarferwyr sydd newydd gymhwyso?
- Pa hyfforddiant aml-asiantaeth ac un asiantaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd? A yw'n canolbwyntio'n benodol ar gam-drin plant yn rhywiol (h.y. nid hyfforddiant diogelu generig)? A yw'n cynnwys pob math/ffurfiau o gam-drin plant yn rhywiol? Pa mor aml mae'n cael ei gyflwyno? A yw'r hyfforddiant yn ddigon manwl ac wedi'i deilwra i wahanol rolau a lefelau?
- Pwy sydd â mynediad at yr hyfforddiant hwn? A yw'n cael ei gyflwyno i gynulleidfa amlasiantaeth neu a yw'r hyfforddiant yn wahanol ar draws y bartneriaeth? Pa mor aml mae angen hyfforddiant ar ymarferwyr? A pha mor aml mae'n cael ei gynnig iddynt?
- Faint o bobl sy'n mynychu'r hyfforddiant? Faint o wahanol asiantaethau sy'n manteisio ar hyn a ble mae'r bylchau?
- Sut mae'r hyfforddiant yn cael ei werthuso? Sut mae effaith yn cael ei mesur yn y tymor byr a'r tymor hir? Sut ydych chi'n gwybod bod yr hyfforddiant yn gwneud gwahaniaeth i blant, teuluoedd ac eraill y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt?

Dyma rai cwestiynau y gallech fod eisiau eu gofyn yn yr arolwg staff:

- Pa mor wybodus, hyderus a medrus mae ymarferwyr yn teimlo wrth nodi ac ymateb i bryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol?
- Pa mor fedrus mae rheolwyr ac uwch arweinwyr yn teimlo o ran cefnogi ymarferwyr pan fydd pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol?
- Beth mae ymarferwyr yn ei ddeall am arwyddion a dangosyddion posibl cam-drin plant yn rhywiol? A oes unrhyw fylchau mewn gwybodaeth y gellid mynd i'r afael â nhw drwy hyfforddiant?
- A yw ymarferwyr yn deall bod angen iddynt siarad â phlentyn pryd bynnag y mae ganddynt bryderon y gallai'r plentyn fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol neu mewn perygl o gael ei gam-drin yn rhywiol? Pa mor hyderus a medrus maen nhw'n teimlo wrth siarad â phlant am gam-drin rhywiol?
- Beth mae ymarferwyr yn ei ddeall am y rhwystrau sy'n atal plant (a rhai grwpiau o blant yn benodol) rhag dweud wrth unrhyw un beth sy'n digwydd iddynt? A oes bylchau mewn gwybodaeth y gellid mynd i'r afael â nhw drwy hyfforddiant?

## Pwynt myfyrio

Bydd angen ystyried yr ymatebion i bob un o'r cwestiynau uchod ymhellach. Er enghraifft, os ydych chi'n cynnal arolwg staff sy'n canfod bod cyfran fawr o'ch gweithlu'n teimlo'n hyderus wrth adnabod cam-drin plant yn rhywiol, ond bod eich llun data yn dangos lefelau isel o ran adnabod, beth mae hyn yn ei olygu?

Er bod gofyn i ymarferwyr roi sgôr i'w lefelau hyder yn ffordd bwysig o ddeall sut mae ymarferwyr yn teimlo am eu gwaith, efallai eu bod yn amharod i roi atebion gonest – oherwydd eu bod yn ofni ymddangos fel pe na baent yn gallu cyflawni eu rôl, er enghraifft.

Mae Adran 3.4 ein canllaw ar ***Measuring Your Effectiveness*** yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut i gasglu gwybodaeth, a'r manteision a'r heriau neu ddulliau gwahanol. (Er ei fod yn canolbwyntio ar gasglu data gan ddefnyddwyr gwasanaeth, mae ei ddadansoddiad a'i gyngor yn gyffredinol hefyd yn berthnasol i ddata'r gweithlu.)

## 6.2 Cynnal archwiliad o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi ymarfer

Ochr yn ochr â hyfforddiant effeithiol, mae angen i ymarferwyr hefyd gael mynediad at adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn eu helpu i adnabod ac ymateb i bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt. Ceisiwch ateb y cwestiynau hyn:

- Pa adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i ymarferwyr yn eich ardal i gefnogi'r gwaith o ganfod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol?
- A yw'r adnoddau hyn ar gael yn rhwydd ar draws pob asiantaeth a sefydliad?
- A yw'r adnoddau ar gael mewn fformat sy'n hawdd ei ddefnyddio ar gyfer staff rheng flaen sydd dan bwysau amser?
- A yw'r adnoddau'n cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol cyfredol a'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau?
- A ydynt yn cynnwys pob math o gam-drin plant yn rhywiol?
- A oes adnoddau i gefnogi asesu risg, cynllunio diogelwch, a gwneud penderfyniadau aml-asiantaeth?
- A yw'r adnoddau wedi'u gwreiddio mewn gweithdrefnau lleol, sesiynau hyfforddi a fframweithiau goruchwylio?
- I ba raddau mae ymarferwyr yn deall ble i ddod o hyd i'r adnoddau hyn a sut i'w defnyddio yn eu hymarfer o ddydd i ddydd?
- Ydy'r adnoddau'n adlewyrchu anghenion amrywiol pob plentyn a theulu?
- A oes fersiynau wedi'u cyfieithu neu wedi'u haddasu'n ddiwylliannol ar gael lle bo hynny'n briodol?
- Pryd oedd y tro diwethaf i'r adnoddau gael eu hadolygu neu eu diweddaru?
- A oes proses ar gyfer casglu adborth ymarferwyr ynghylch pa mor ddefnyddiol yw'r adnoddau mewn gwirionedd?
- A oes unrhyw enghreifftiau achos neu archwiliadau ymarfer sy'n dangos sut mae'r adnoddau wedi gwella canlyniadau?
- Pa adnoddau mae ymarferwyr yn teimlo sydd ar goll?

# Datblygu eich nodau a'ch amcanion

7.

Pan fydd gennych syniad clir am eich cyd-destun lleol/rhanbarthol, a pha mor dda mae eich ymateb presennol i gam-drin plant yn rhywiol yn diwallu angen yn eich ardal, gallwch ddechrau pwyso a mesur lle rydych chi arni nawr, ble rydych chi eisiau cyrraedd, a beth mae angen i chi ei wneud i gyrraedd yno.

## 7.1 Dechrau proses Damcaniaeth Newid

Un o'r ffyrdd y gallwch feddwl yn systematig am ble yr hoffech gyrraedd, a nodi camau i gyrraedd yno, yw datblygu Theori Newid ar gyfer eich partneriaeth. Mae hon yn broses lle mae eich grŵp llywio yn dod at ei gilydd i nodi:

- nodau strategol a rennir (meysydd allweddol o newid mewn perthynas â'r ymateb i gam-drin plant yn rhywiol) a fydd yn cyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y bartneriaeth (gweler Pennod 3)
- y canlyniadau a fydd yn deillio o gyflawni'r nodau hynny
- camau i'w cymryd er mwyn cyrraedd y canlyniadau hynny.

Gall defnyddio dull Damcaniaeth Newid eich helpu i ddatblygu theori glir y gellir ei phrofi ynghylch sut y bydd newid yn digwydd, sy'n arbennig o ddefnyddiol wrth adlewyrchu cymhlethdod newid ar draws partneriaethau aml-asiantaeth, a dylai fod yn sail i werthuso eich gwaith. Gall hefyd eich galluogi i ddatblygu darlun gweledol o'r newidiadau a ddaw yn sgil eich gwaith, a all fod yn arf cyfathrebu pwerus i helpu eraill i ddeall hyn. Fodd bynnag, mae angen neilltuo amser ac ymrwymiad, felly nid yw'n rhywbeth y gallwch ei wneud yn gyflym.

Mae ein cyflwyniad fideo ***An Introduction to Theory of Change*** yn cynnwys cyngor ar ymgymryd â'r broses hon yn effeithiol, ac mae adran 3.1 o'n canllaw ***Measuring Your Effectiveness*** yn amlinellu'r broses yn fanwl. Mae offer a chanllawiau ychwanegol ar gyfer datblygu Theori Newid ar gael gan **Gyngor Cenedlaethol y Mudiadau Gwirfoddol (NCVO)** a **New Philanthropy Capital (NPC)**.

Mae Tabl 1 yn rhoi enghreifftiau o nodau strategol a chanlyniadau arfaethedig. Sylwch, fodd bynnag, y bydd y nodau a'r canlyniadau y byddwch yn eu datblygu yn benodol i ardal eich partneriaeth. Efallai na fyddwch yn nodi'r camau gweithredu i gyrraedd y canlyniadau hynny ar hyn o bryd; bydd Penodau 8-11 yn eich helpu i ddeall y gweithgareddau y dylech fod yn eu cyflawni er mwyn darparu ymateb strategol effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol, a'r camau gweithredu sy'n ofynnol.

**Tabl 1. Nodau strategol enghreifftiol a chanlyniadau arfaethedig datblygu eich strategaeth cam-drin plant yn rhywiol**

| Nodau strategol | Canlyniadau arfaethedig |
|---|---|
| Datblygu gweithlu sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder priodol i adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol | • Mae'r staff yn adnabod mwy o blant y mae pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn eu cylch.<br>• Mae staff yn gweithredu ar eu pryderon yn fwy cyffredin drwy agor drws i gyfathrebu pan fydd ganddynt bryderon am gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Mae staff yn defnyddio adnoddau fel mater o drefn i lywio eu hymarfer pan fydd ganddynt bryderon am gam-drin plant yn rhywiol. |
| Cryfhau'r ymateb amlasiantaeth i gam-drin plant yn rhywiol | • Mae'r holl staff yn gallu adnabod y rôl y maen nhw ac asiantaethau/sefydliadau eraill yn ei chwarae wrth gefnogi plant a theuluoedd.<br>• Mae staff yn rhannu gwybodaeth briodol yn brydlon. |

## 7.2 Llunio fframwaith gwerthuso

Ar ôl treulio rhywfaint o amser yn datblygu eich Theori Newid a dull gweithredu a fydd yn sail i'ch ymateb strategol i gam-drin plant yn rhywiol, y cam nesaf yw penderfynu sut rydych chi'n bwriadu gwerthuso'r ymateb hwnnw.

Gall y cwestiynau i'w hystyried gynnwys:

- Sut bydd y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb yn cael eu monitro a'u sicrhau o ran ansawdd?
- Sut byddwch chi'n mesur llwyddiant, h.y. sut byddwch chi'n gwybod eich bod wedi gwneud gwahaniaeth?
- Sut byddwch chi'n deall pa weithgareddau sydd wedi cael effaith?

Bydd cael fframwaith ar gyfer eich gwerthusiad yn eich galluogi i weld pa effaith y mae strategaeth eich partneriaeth ar gam-drin plant yn rhywiol, a gweithgareddau cysylltiedig, yn ei chael a lle gallai fod elfennau nad ydynt yn gweithio fel yr oeddech wedi gobeithio. Ar gyfer pob un o'ch canlyniadau arfaethedig y cytunwyd arnynt yn ystod eich proses Damcaniaeth Newid, awgrymwn eich bod yn nodi:

- y data a ddefnyddir i ddangos a yw'r canlyniad wedi'i gyflawni
- sut a ble bydd y data hwnnw'n cael ei gasglu a'i gofnodi
- pwy fydd yn coladu'r data a gofnodwyd ac yn ei gyflwyno i'r grŵp llywio, a sut a phryd y byddant yn ei gyflwyno.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae llunio fframwaith gwerthuso yn adran 3.3 ein canllaw ***Measuring Your Effectiveness***.

Mae Tabl 2 yn ailedrych ar nodau a chanlyniadau enghreifftiol Tabl 1, gan dynnu sylw at ffyrdd y gallwch ddechrau mesur llwyddiant neu gofnodi arwyddion o effaith gynnar mewn meysydd craidd. Sylwer: dim ond rhai enghreifftiau yw'r rhain o'r mathau o dystiolaeth y gallech fod eisiau eu casglu.





**Tabl 2. Mesur llwyddiant eich ymateb strategol**

| Nodau strategol | Canlyniadau arfaethedig | Sut byddwch chi'n mesur cyflawni canlyniadau? |
|---|---|---|
| Sefydlu gweithlu sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder priodol i adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol | Mae'r staff yn adnabod mwy o blant y mae pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn eu cylch.<br><br>Mae staff yn gweithredu ar eu pryderon yn fwy cyffredin drwy agor drws i gyfathrebu pan fydd ganddynt bryderon am gam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Mae staff yn defnyddio adnoddau fel mater o drefn i lywio eu hymarfer pan fydd ganddynt bryderon am gam-drin plant yn rhywiol. | Monitro nifer yr asesiadau o blant mewn angen lle mae cam-drin rhywiol yn cael ei nodi fel ffactor.<br><br>Cofnodi data ar drafodaethau (mewn sesiynau goruchwylio, cyfarfodydd tîm, ac ati) ynghylch defnyddio adnoddau ymarfer. |
| Cryfhau'r ymateb amlasiantaeth i gam-drin plant yn rhywiol | Mae'r holl staff yn gallu adnabod y rôl y maen nhw ac asiantaethau/sefydliadau eraill yn ei chwarae wrth gefnogi plant a theuluoedd.<br><br>Mae staff yn rhannu gwybodaeth briodol yn brydlon. | Monitro cyfran y cynlluniau amddiffyn plant sy'n dod o dan y prif gategori cam-drin rhywiol.<br><br>Monitro nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau cwnsela a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARCs), er enghraifft. |

# Rhan B. Elfennau allweddol eich ymateb strategol

Ar ôl nodi eich nodau strategol a’ch canlyniadau arfaethedig fel cam cyntaf datblygu Theori Newid eich partneriaeth, bydd angen i chi gynllunio’r camau gweithredu a fydd yn cyflawni’r canlyniadau hynny.

Bydd manylion eich cynlluniau gweithredu wrth gwrs yn dibynnu ar eich cyd-destun lleol/rhanbarthol, ond bydd angen i’ch ymateb i gam-drin plant yn rhywiol gynnwys nifer o elfennau craidd. Mae’r penodau canlynol yn rhoi trosolwg o bob un o’r elfennau craidd hyn; er ei bod y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn i fynd i fanylion am bob elfen, rydym yn awgrymu rhai ffyrdd y gallwch eu hymgorffori yn eich ymateb strategol.

# Atal a tharfu ar gam-drin plant yn rhywiol

8.

Mae tueddiad i asiantaethau diogelu ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ar ymateb i gam-drin ar ôl iddo ddigwydd, neu i ystyried gweithgarwch atal dim ond o ran helpu plant i adnabod ymddygiad camdriniol. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu eich bod yn mabwysiadu **dull iechyd y cyhoedd** o atal cam-drin plant yn rhywiol, sy'n cynnwys ymyrryd yn gynnar cyn i gam-drin ddigwydd.

Mae dull iechyd y cyhoedd yn darparu fframwaith i atal cam-drin plant yn rhywiol drwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Mae Sefydliad Lucy Faithfull yn nodi tair lefel o ymyrraeth:

- **Sylfaenol.** Wedi'i dargedu at y gymdeithas ehangach – er enghraifft, ymgyrchu eang i godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol a darparu addysg am berthnasoedd iach.

- **Eilaidd.** Wedi'i dargedu at bobl sydd mewn perygl o gam-drin plant yn rhywiol neu o gael eu cam-drin yn rhywiol, gyda'r nod o atal cam-drin posibl.

- **Trydyddol.** Fe'i defnyddir pan fydd cam-drin eisoes wedi digwydd; mae ymyriadau'n canolbwyntio ar atal troseddu pellach a niwed pellach i ddioddefwyr.

Mae mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd a gweithredu ymyriadau ar bob un o'r tair lefel yn golygu bod ymdrechion atal yn gyfannol ac yn effeithiol. Wrth feddwl am eich gweithgareddau atal, mae hyn yn darparu fframwaith defnyddiol.

I gael rhagor o wybodaeth am ddull iechyd y cyhoedd, ewch i **wefan Sefydliad Lucy Faithfull**.

## 8.1 Creu amgylcheddau diogel ac agored

Mae gan eich partneriaeth rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi ymarferwyr – y tu mewn a'r tu allan i'w hasiantaethau/sefydliadau partner – i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i siarad yn rheolaidd ac yn briodol â phlant a phobl ifanc am ryw, perthnasoedd a chydsyniad. Mae'r sgyrsiau hyn yn hanfodol er mwyn atal cam-drin plant yn rhywiol a chydnabod ymddygiad niweidiol. Mae'r gweithgareddau y gallech eu gwneud yn cynnwys:

- cefnogi ysgolion, lleoliadau ieuenctid ac amgylcheddau gofal i adolygu eu polisïau, eu harferion a'u diwylliant fel bod plant yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu clywed a'u parchu

- hyrwyddo cyfranogiad a llais, fel bod plant yn cael eu holi'n rheolaidd am eu profiadau a'u bod yn teimlo'n hyderus i godi llais am bryderon neu gamdriniaeth

- eirioli dros ddulliau gweithredu ar gyfer y lleoliad cyfan sy'n cynnwys staff a rhieni yn y gwaith o greu negeseuon cyson ynghylch diogelwch a pharch.

## 8.2 Addysg a chodi ymwybyddiaeth

Mae eich partneriaeth hefyd mewn sefyllfa dda i arwain neu gomisiynu mentrau codi ymwybyddiaeth strategol, fel y canlynol:

- **Trefnu ymgyrchoedd cyhoeddus** sy'n herio agweddau niweidiol, yn hyrwyddo perthnasoedd iach, ac yn codi ymwybyddiaeth o dactegau cam-drin a meithrin perthynas amhriodol. Gellir anelu'r ymgyrchoedd hyn at ymarferwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys rhieni a chymunedau.
- **Cefnogi a chomisiynu'r sector gwirfoddol/cymunedol** i ddarparu rhaglenni arbenigol mewn ysgolion a lleoliadau ieuenctid, yn enwedig lle mae'r sefydliadau hyn yn dod â pherthnasoedd dibynadwy, profiad bywyd, a chymorth i grwpiau sydd ar y cyrion.
- **Cydlynu ag arweinwyr addysg** i sicrhau bod Addysg Cydberthynas, Rhyw ac Iechyd (RSHE) o ansawdd uchel, cyson ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei darparu, a'i bod yn adlewyrchu themâu ac anghenion diogelu lleol/rhanbarthol.
- **Targedu gweithwyr proffesiynol y tu allan i rolau diogelu traddodiadol** (e.e. staff mewn canolfannau hamdden a chlybiau chwaraeon, a gweithwyr trafnidiaeth), gyda negeseuon a hyfforddiant wedi'u teilwra, i helpu i greu rhwydwaith diogelu ehangach o amgylch plant.

## 8.3 Tarfu gan yr heddlu

Er bod nifer y troseddau cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu riportio a'u cofnodi gan yr heddlu wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Kewley a Karsna, 2025), ychydig o'r adroddiadau hyn sy'n arwain at euogfarn. O ganlyniad, mae llawer o bobl dan amheuaeth yn rhydd i droseddu yn erbyn plant; felly mae ymdrechion i darfu ar amgylchiadau ac ymddygiad yr unigolion hyn yn hollbwysig.

Defnyddir y term 'tarfu' i ddisgrifio gweithgareddau sy'n ceisio ymyrryd ag ymddygiad ac amgylchiadau'r rhai dan amheuaeth fel eu bod yn llai abl i gyflawni trosedd. Mae tri dull sylfaenol o darfu, gyda rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt:

- Mae'r dull cyntaf yn defnyddio mesurau uniongyrchol i roi sancsiynau cyfreithiol ar bobl dan amheuaeth, gan ei gwneud yn anoddach iddynt gyflawni neu barhau i gam-drin plant yn rhywiol.
- Mae'r ail ddull yn defnyddio mesurau sy'n cefnogi tarfu sy'n analluogi neu'n tarfu ar weithgarwch troseddol yn y gymuned.
- Mae trydydd dull yn defnyddio mesurau ar-lein i darfu ar weithgarwch troseddol sy'n digwydd neu sy'n cael ei hwyluso dros y rhyngrwyd.

Mae Adran 5.3 o'r canllaw hwn yn rhestru rhai enghreifftiau o weithgarwch tarfu, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad ymchwil ***Police Disruption of Child Sexual Abuse: A Scoping Review***.

Ar ôl adolygu defnydd presennol eich partneriaeth o fesurau tarfu, dylech ystyried sut y gellir cryfhau'r gweithgarwch hwn. Er mwyn bod yn effeithiol, mae tarfu ar gam-drin plant yn rhywiol yn gofyn am ddull hyblyg a deinamig. Fel y nododd ein hadroddiad ***Police Disruption of Child Sexual Abuse: Findings from a National Survey of Frontline Personnel and Strategic Leads for Safeguarding***, bod angen:

- cydnabyddiaeth ehangach bod tarfu yn dibynnu ar gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau
- dull cyson o ymdrin ag arferion tarfu ar draws y tîm amlasiantaethol, wedi'i wreiddio drwy ganllawiau a hyfforddiant
- gwell systemau ar gyfer cydweithredu ar weithgarwch tarfu ar draws heddluoedd ac asiantaethau eraill.

Mae'r Grŵp Tasg ar Esgeulustod Rhywiol Plant, dan arweiniad Cynllun Hydrant yr heddlu, yn gweithio i wella ymateb yr heddlu i esgeulustod a cham-drin rhywiol plant gan grŵpiau; er enghraifft, mae'n goruchwylio **Operation Makesafe**, menter genedlaethol i weithio gyda'r sector lletygarwch i atal y fath esgeulustod mewn gwestai a lleoliadau tebyg. I gael mwy o wybodaeth am y Grŵp Tasg a'i waith atal, gall grym yr heddlu yn eich partneriaeth gysylltu â **HydrantEnquiries@southyorkshire.police.uk**.

## 8.4 Cefnogi a rheoli oedolion sy'n peri risg o gam-drin plentyn yn rhywiol

Er bod mesurau tarfu yn rhan hanfodol o weithgarwch ataliol sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, bydd llawer o oedolion sy'n peri risg i blant yn elwa o ddull mwy cefnogol a all eu helpu i addasu eu hymddygiad.

Mae angen sbectrwm o gymorth a chefnogaeth, o wasanaethau sy'n darparu gwasanaethau atal cynnar lefel isel (e.e. addysg a chyngor) hyd at y rhai sy'n cynnig triniaeth ac ymyriadau mwy dwys (fel therapi ffarmacolegol a seicogymdeithasol) i fynd i'r afael â risg ac angen sy'n gysylltiedig â throseddu.

Mae **Argymhelliad 4** y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant yn datgan y dylai "partneriaethau diogelu, gyda'r holl asiantaethau perthnasol fel y Gwasanaeth Prawf, adolygu sut mae pobl sy'n peri risg o niwed rhywiol ac sy'n dod i gysylltiad â phlant yn cael eu hasesu a'u rheoli, gyda gwybodaeth am risg yn cael ei rhannu ar draws asiantaethau mewn ffordd amserol".

### Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)

Mae MAPPA yn broses statudol yng Nghymru a Lloegr i reoli'r risgiau a achosir gan droseddwyr penodol a allai beri risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd, yn enwedig y rheini sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol a threisgar. Mae'n dwyn ynghyd **yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai** (a elwir yn Awdurdodau Cyfrifol), ochr yn ochr ag asiantaethau eraill fel gofal cymdeithasol, iechyd, tai, addysg a gwasanaethau troseddau ieuenctid.

Mae partneriaethau'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod diogelwch a lles plant yn cael blaenoriaeth ym mhrosesau MAPPA, a bod yr hyn a ddysgir o MAPPA yn cael ei wreiddio mewn systemau diogelu lleol/rhanbarthol.

Dylai fod gan eich partneriaeth gyswllt llywodraethu clir â Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) MAPPA yn eich rhanbarth, drwy aelodaeth a rennir neu adroddiadau rheolaidd, i sicrhau cydgysylltu ar lefel uwch. Bydd hyn yn helpu'r ddau gorff i alinio â materion fel:

- trothwyon risg
- datblygu'r gweithlu (e.e. deall ymddygiad troseddol)
- ymateb i bryderon trawsbynciol fel troseddu ar-lein, camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin o fewn y teulu.

### Pwynt myfyrio

A yw eich dull llywodraethu'n cysylltu â Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA ac yn darparu unrhyw wersi a ddylai ddylanwadu ar eich dull strategol o atal cam-drin plant yn rhywiol?

## 8.5 Cefnogaeth i blant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Mae angen ymateb cydlynol sy’n ystyriol o drawma ar blant a phobl ifanc sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae llawer o blant sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol eu hunain wedi cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, wedi profi tarfu ar ymlyniadau, neu wedi dod i gysylltiad â thrais rhywiol.

Dylai eich partneriaeth sicrhau nad yw systemau’n troseddoli nac yn ynysu’r plant hyn yn ddiangen, ond yn hytrach yn darparu diogelwch cadarn, cymorth therapiwtig, ac ymyrraeth arbenigol gyda’r nod o ddeall a lleihau eu hymddygiad a hyrwyddo diogelwch hirdymor. Gall hyn gynnwys gweithgareddau fel:

- comisiynu gwasanaethau arbenigol (gan gynnwys darparwyr yn y sector gwirfoddol) ar gyfer asesu ac ymyrryd, a sicrhau nad yw mynediad at y gwasanaethau hynny’n cael ei gyfyngu gan drothwyon cyfiawnder ieuenctid
- hyfforddi ymarferwyr ar draws yr asiantaethau/sefydliadau yn eich partneriaeth i wneud y canlynol:
    - nodi dangosyddion cynnar o ymddygiad rhywiol niweidiol, gan gynnwys ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd a cham-drin
    - ymateb yn gymesur ac yn gefnogol
    - gweithio gyda’r plentyn sydd wedi cael ei niweidio, y plentyn sydd wedi niweidio, a’u teuluoedd
    - deall yr angen i fabwysiadu dull teulu cyfan, yn enwedig pan fydd plentyn wedi cael ei niweidio gan frawd neu chwaer
- hyrwyddo arferion myfyriol, di-gosb sy’n osgoi labeli neu ymatebion sy’n creu stigma diangen
- cynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol a chamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd mewn archwiliadau diogelu ac adolygiadau achos.





# Adnabod cam-drin plant yn rhywiol, a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol

9.

> *“Allwn i ddim siarad am y cam-drin rhywiol. Roedd yn rhy anodd. Roeddwn i eisiau iddyn nhw i gyd sylwi a gofyn i mi beth oedd yn digwydd.” – cyfweliad â phlentyn a gafodd ei gam-drin yn rhywiol (Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant, 2024:57*)

Gyda dim ond cyfran fach o blant sy’n cael eu cam-drin yn rhywiol yn dod i sylw asiantaethau statudol (gweler adran 5.1), mae’n hanfodol bod y rhan honno o’ch ymateb strategol yn canolbwyntio ar weithredu i gau’r bwlch hwn.

Mae gwella’r broses o adnabod plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol, neu sy’n cael eu cam-drin yn rhywiol neu sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ar draws pob asiantaeth/sefydliad fod yn glir ynghylch arwyddion a dangosyddion posibl cam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiad cam-drin rhywiol. Gellir cyflawni llawer o hyn drwy ddatblygu’r gweithlu, goruchwyliaeth effeithiol a gwaith amlasiantaethol cadarn. Fodd bynnag, bydd angen iddo gael ei gefnogi gan y ffordd y mae eich partneriaeth yn cyfathrebu am gam-drin plant yn rhywiol: sicrhau bod y cam-drin hwn yn cael ei enwi’n benodol, ei drafod yn agored ac yn glir, a’i fod yn cael yr un flaenoriaeth â mathau eraill o niwed.

Gall eich partneriaeth arwain yn strategol drwy gynnwys adnabod cam-drin plant yn rhywiol yn eich strategaeth hyfforddi, fframwaith sicrhau ansawdd, a chylch archwilio aml-asiantaeth. Dylid anelu hyn at sicrhau:

1. **Bod ymarferwyr yn gallu adnabod arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol, ac ymddygiad cam-drin rhywiol, a gweithredu arnynt**

   Ymgorffori **Templed Arwyddion a Dangosyddion** y Ganolfan CPRh – sy’n cefnogi ymarferwyr i gofnodi, coladu a gwneud synnwyr o bryderon – mewn gweithdrefnau diogelu lleol/rhanbarthol, trafodaethau achos a goruchwyliaeth. Mae’r templed yn hwyluso dull strwythuredig sy’n caniatáu i batrymau gael eu nodi dros amser ac ar draws asiantaethau/sefydliadau, gan annog adnabod cam-drin plant yn rhywiol yn gynnar heb aros i blant ddweud.

2. **Mae ymarferwyr yn ymwybodol o’u rôl o ran cyfathrebu â phlant pan fydd pryderon am gam-drin rhywiol, neu pan fydd plentyn yn dweud rhywbeth wrthynt, ac yn hyderus i wneud hynny**

   Gwnewch yn siŵr bod ymarferwyr yn cael eu hyfforddi a’u cefnogi i gael sgyrsiau sensitif sy’n canolbwyntio ar y plentyn lle gallant agor drws i blentyn gyfathrebu, ac i gydnabod nad cyfrifoldeb y plentyn yw dweud wrth rywun am y gamdriniaeth.

   Gwneud **Canllaw Cyfathrebu gyda â Phlant** y Ganolfan CPRh – sy’n cynnig cyngor ymarferol sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gynnal sgyrsiau anodd mewn ffyrdd sy’n teimlo’n ddiogel ac yn grymuso plant – yn rhan safonol o hyfforddiant a chynefino aml-asiantaeth, yn enwedig i’r rheini mewn rolau cymorth cynnar a chyffredinol.



3. **Blaenoriaethir goruchwyliaeth ac ymarfer myfyriol**

   Cryfhau fframweithiau goruchwylio myfyriol sy'n caniatáu i staff archwilio ansicrwydd a rhagfarn yn ddiogel, meithrin hyder wrth fynegi pryderon, a chynnal chwilfrydedd ynghylch arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol.

   Ystyried defnyddio cymunedau ymarfer i rannu syniadau ac enghreifftiau o arferion effeithiol.

   Annog her broffesiynol ac uwchgyfeirio pan na weithredir ar bryderon.

4. **Mae adnabod yn cael ei drin fel cyfrifoldeb aml-asiantaeth ar y cyd**

   Sicrhau nad yw ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol yn dibynnu ar blant yn dweud ar lafar wrth rywun beth sy'n digwydd iddyn nhw.

   Ymgorffori iaith a rennir a disgwyliadau cyson ar draws yr holl asiantaethau/sefydliadau ynghylch beth yw pryder, beth i'w wneud nesaf, a sut i uwchgyfeirio.

   Defnyddio archwiliadau, adolygiadau dysgu ac adborth gan blant a theuluoedd i nodi cyfleoedd a gollwyd a gwella systemau adnabod yn gynnar.

   Integreiddio lleoliadau fel ysgolion, gwasanaethau iechyd a sefydliadau ieuenctid yn llawn i lwybrau a hyfforddiant lleol/rhanbartho.

# Ymateb system gyfan i gefnogi pobl y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt

10.

Er bod cam-drin plant yn rhywiol yn gallu cael effeithiau difrifol a gydol oes ar ei ddioddefwyr a'r bobl o'u cwmpas, rydym yn gwybod bod camau i atal y cam-drin a darparu cymorth priodol yn gallu bod yn effeithiol iawn o ran lliniaru'r effeithiau hynny, ar yr amod bod yr elfennau cywir ar waith.

Mae'n bwysig cofio y gall dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys y rheini sydd bellach yn oedolion), a'u teuluoedd, fod ag amrywiaeth o wahanol anghenion – felly mae angen amrywiaeth o gymorth arnynt.

Yn anffodus, gall fod tuedd i ymarferwyr ystyried bod cam-drin plant yn rhywiol rywsut yn wahanol i fathau eraill o niwed, a meddwl mai dim ond gwasanaethau arbenigol sy'n gallu cynnig cymorth. Er bod gwasanaethau arbenigol yn hanfodol i rai plant, oedolion a theuluoedd, mae'r ymatebion a ddarperir ar bob cam o daith y plentyn – a chan yr holl ymarferwyr y maent yn dod i gysylltiad â nhw – yn hanfodol i hybu gwellhad ac adferiad.

O ganlyniad, dylech sicrhau bod eich ymateb strategol a'ch gweithgareddau cysylltiedig yn ystyried yr holl sbectrwm cymorth a gynigir gan bob asiantaeth/sefydliad.





Mae ymateb system gyfan yn dibynnu ar gydweithio effeithiol a chydgysylltiedig rhwng yr holl bartneriaid diogelu. O'i wneud yn dda, mae cydweithio amlasiantaethol yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cymorth amserol, cydlynol sy'n seiliedig ar drawma ar bob cam o'u taith.

Nid strwythur yn unig yw'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau tameidiog a system ddiogelu integredig – mae'n *ddiwylliant*. Mae gwaith amlasiantaeth effeithiol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol wedi'i seilio ar barch ddwy ffordd, rhannu gwybodaeth, ac ymrwymiad i weithredu *gyda'i gilydd*.

Mae gan eich partneriaeth rôl hollbwysig o ran creu'r amodau i'r cydweithio hwn ffynnu, a gall ddatblygu'r amodau hyn drwy ganolbwyntio ar y pedwar gweithgaredd hyn:

1. **Datblygu cyd-ddealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol**

   Gallwch wneud hyn drwy rannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu am y mathau o gam-drin plant yn rhywiol a'r bobl y mae'n effeithio arnynt, fel yr amlinellir ym Mhennod 4. Gweler Pennod 11 hefyd ar ddatblygu'r gweithlu.

2. **Datblygu cyd-ddealltwriaeth glir o'r rolau a chwaraeir gan bob asiantaeth/sefydliad**

   Mae cydweithio effeithiol yn dibynnu ar fod gan asiantaethau/sefydliadau ddealltwriaeth glir o rolau ei gilydd, dyletswyddau cyfreithiol a throthwyon ymyrryd. Gall camddealltwriaeth arwain at atgyfeiriadau amhriodol, colli cyfleoedd am gymorth cynnar, neu densiynau sy'n gohirio gweithredu. Mae hyfforddiant ar y cyd, dogfennau trothwy a rennir a gweithdai traws-sector rheolaidd yn helpu i feithrin eglurder a hyder pawb wrth wneud penderfyniadau.

3. **Bod yn glir ynghylch pwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn effeithiol**

   Er bod canllawiau cenedlaethol clir ar gael ynghylch pwysigrwydd rhannu gwybodaeth, mae llawer o fythau amlwg ynghylch pa wybodaeth y gellir ac na ellir ei rhannu, o fewn a rhwng gwahanol asiantaethau/sefydliadau, yng nghyd-destun cam-drin plant yn rhywiol. Y canlyniad yw nad yw gwybodaeth yn aml yn cael ei rhannu o gwbl, neu nad yw'n cael ei rhannu mewn ffordd ddefnyddiol, hygyrch nac amserol, gan adael plant mewn perygl o niwed neu niwed pellach.

   Mae ***Rhannu Gwybodaeth er Mwyn Diogelu Plant: Canllaw Anstatudol ar gyfer Ymarferwyr*** gan Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor ar y fframwaith cyfreithiol a sut mae'n cefnogi rhannu gwybodaeth at ddibenion diogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

4. **Sicrhau bod y plentyn a'r teulu'n cael cefnogaeth gydlynol**

   Drwy fapio taith y plentyn a'i deulu drwy wasanaethau, gallwch nodi sefyllfaoedd lle mae trosglwyddo neu weithio mewn seilos yn creu rhwystrau neu oedi o ran cael gafael ar gymorth. Efallai y byddai'n ddefnyddiol neilltuo ymarferwyr allweddol i weithredu fel 'pwyntiau parhad', yn enwedig yn ystod ymchwiliadau, cyfnodau pontio neu brosesau llys. Gall **Llwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol** y Ganolfan CPRh (gweler isod) eich helpu i ddeall mwy am sut i wneud hyn.

## 10.1 Plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a'u teuluoedd

Mae **Argymhelliad 3** y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant yn galw ar bartneriaid diogelu i "archwilio ansawdd penderfyniadau aml-asiantaeth lleol wrth ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol". Ar draws eich partneriaeth, bydd angen i chi feddwl am sut mae pob asiantaeth/sefydliad yn ymateb i'r rhai y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt, a sut mae'r ymatebion hyn yn cael eu cydlynu er budd gorau plant a theuluoedd.

Mae'r ddelwedd isod yn rhoi trosolwg o sut beth allai ymateb system gyfan i gam-drin plant yn rhywiol fod. Mae'n tynnu sylw at y wybodaeth y dylai ymarferwyr mewn gwahanol asiantaethau statudol feddu arni er mwyn darparu cymorth effeithiol, ac yn dangos sut y gall gwasanaethau cymorth yn y sector gwirfoddol/cymunedol ategu hyn.

.



Mae elfennau allweddol o gefnogaeth effeithiol i blant sy’n cael eu cam-drin yn rhywiol a’u teuluoedd yn cynnwys y canlynol:

- **Mannau diogel**

  Annog asiantaethau/sefydliadau yn eich partneriaeth i sicrhau bod amgylcheddau lle mae plant ac aelodau o’r teulu’n teimlo’n ddiogel i siarad am eu profiadau a’u teimladau, ac i ofyn cwestiynau.

  Cefnogi’r defnydd o iaith ac ymatebion sy’n sensitif i drawma ar draws yr holl wasanaethau rheng flaen.

  Cydnabod pryd y gall teuluoedd brofi trawma rhwng cenedlaethau, a rhoi strategaethau i ymarferwyr ar gyfer darparu cymorth effeithiol.

- **Cyfathrebu da a gwasanaethau y gellir llywio drwyddynt**

  Darparu gwybodaeth glir ac amserol i blant a theuluoedd am yr hyn sy’n digwydd ar ôl i asiantaethau statudol gymryd rhan, pa gymorth sydd ar gael, a beth i’w ddisgwyl gan brosesau diogelu a chyfiawnder troseddol.

  Lleihau’r baich ar blant a theuluoedd drwy wella’r cydlynu rhwng asiantaethau/sefydliadau a sicrhau bod un pwynt cyswllt lle bo hynny’n bosibl.

- **Cyfranogiad**

  Parchu profiadau bywyd plant a theuluoedd a sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed.

  Cynnwys plant a theuluoedd yn y gwaith o lunio adolygiadau dysgu a datblygu gwasanaethau lleol/rhanbarthol, gan ddefnyddio eu profiadau i gryfhau ymatebion yn y dyfodol ac atal rhagor o niwed.

## Plant

Er y bydd rhai plant yn elwa o gymorth therapiwtig a ddarperir gan wasanaeth arbenigol, bydd pob plentyn yn elwa'n aruthrol o gael ymateb therapiwtig a chefnogol gan ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr a all eu sicrhau bod eu hymateb i'r hyn sydd wedi digwydd iddynt yn eithaf normal – a'u cefnogi i ddeall nad eu bai nhw oedd y cam-drin.

Lle mae angen cymorth therapiwtig arbenigol, cofiwch fod **Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth** y Ganolfan CPRh yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau perthnasol sydd ar gael i blant yn eich ardal. Mae hefyd yn bwysig nodi lle mae bylchau yn y ddarpariaeth hon, ac adolygu eich trefniadau comisiynu (neu weithio gyda chomisiynwyr gwasanaethau eraill) gyda'r bwriad o lenwi'r bylchau hyn fel bod plant yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig amserol o ansawdd uchel.

Mae cefnogi iechyd a lles corfforol y plentyn hefyd yn bwysig, gan y gall liniaru unrhyw effeithiau corfforol y cam-drin (gan gynnwys effeithiau posibl yn y dyfodol). Dywed **Argymhelliad 6** y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant y dylai partneriaid diogelu "sicrhau bod yna lwybrau lleol ar gyfer atgyfeirio plant ar gyfer asesiadau meddygol fforensig priodol ac asesiadau iechyd eraill ... a bod ymarferwyr diogelu yn eu deall". Yn yr un modd â chymorth therapiwtig, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau iechyd cyffredinol ac arbenigol gynnig cymorth priodol i blant o bob oed, p'un a oedd eu cam-drin rhywiol yn ddiweddar ai peidio.

Yn anad dim, mae'n hanfodol bod pob asiantaeth a sefydliad yn gallu creu amgylcheddau diogel a chefnogol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae **Argymhelliad 5** yn datgan y "dylai partneriaid diogelu gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn eu hardal (gan gynnwys gofalwyr maeth) yn deall ac yn hyderus wrth siarad yn uniongyrchol â phlant, a theuluoedd, am bryderon ynghylch cam-drin rhywiol, gan roi ystyriaeth briodol i ethnigrwydd, iaith ac anabledd". Os yw'r holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant yn teimlo eu bod yn gallu gwrando ar blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, siarad â nhw a'u cefnogi, gallai'r tawelwch sy'n gysylltiedig â cham-drin rhywiol leihau a gellid lleihau ei effaith niweidiol.



## Rhieni ac aelodau eraill o'r teulu

Mae hefyd yn hanfodol bod eich ymateb system gyfan i gam-drin plant yn rhywiol yn cydnabod anghenion rhieni a'r rhwydwaith teulu ehangach – yn rhannol oherwydd y bydd angen cymorth arnynt, ond hefyd oherwydd bod y cymorth y mae'r plentyn yn ei gael gan ei brif roddwyr gofal a'i deulu ehangach yn un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol o ran effeithio ar effeithiau tymor hwy cam-drin rhywiol, a bydd yn cael dylanwad mawr ar sut mae'r plentyn yn deall ac yn ymateb i'r hyn sydd wedi digwydd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod teuluoedd yn ymateb mewn ffyrdd amrywiol a chymhleth pan fyddant yn darganfod y gallai eu plentyn fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Er enghraifft, gall rhieni feio eu hunain neu ei gilydd; profi galar, brad a chywilydd dwys; teimlo eu bod yn cael eu dadrymuso neu eu llethu; neu wadu neu leihau'r cam-drin, weithiau fel mecanwaith ymdopi; gall ymarferwyr ddehongli'r ymddygiad hwn yn anghywir fel arwydd nad oes angen cymorth ar y rhieni, neu hyd yn oed eu bod yn rhan o'r cam-drin.

Er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi'n effeithiol, gallwch gymryd y camau strategol canlynol:

1. **Ymgorffori ymatebion teulu cyfan sy'n sensitif i drawma, yn seiliedig ar gydnabod a deall effeithiau'r cam-drin**

   Sicrhau bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant hefyd yn deall ac yn gallu mynd i'r afael ag anghenion rhiant/rhieni nad ydynt yn cam-drin y plentyn, gan gydnabod trawma'r rhiant/rhieni eu hunain a'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt i fagu plant yn effeithiol. Mae **Canllaw Cefnogi Rhieni a Gofalwyr** y Ganolfan CPRh yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am hyn, a dylech hefyd gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu er mwyn i ymarferwyr allu:

   - deall ac ymateb yn sensitif i effeithiau'r cam-drin ar aelodau'r teulu
   - ymgysylltu mewn modd sensitif ag aelodau o'r teulu sy'n gwadu neu wrthwynebu
   - datblygu cymhwysedd diwylliannol a chydnabod anghenion penodol y teulu
   - cynnal sgyrsiau anodd yn agored ac yn hyderus.

   Hyrwyddo arferion sy'n sensitif i drawma sy'n osgoi beio, nad ydynt yn feirniadol, ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gefnogi adferiad.

2. **Hwyluso mynediad at gymorth arbenigol**

   Hyrwyddo gwasanaethau lleol/rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer rhieni ac aelodau ehangach o'r teulu, gan gynnwys sefydliadau yn y sector gwirfoddol/cymunedol sy'n cynnig cwnsela, cefnogaeth gan gymheiriaid, ac eiriolaeth. Mae gwybodaeth am y gwasanaethau hyn ar gael yng **Nghyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth** y Ganolfan CPRh.

   Cydnabod lle mae'r bylchau yn y ddarpariaeth hon ac adolygu eich trefniadau comisiynu (neu weithio gyda chomisiynwyr gwasanaethau eraill) gyda'r bwriad o lenwi'r bylchau hyn fel bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig amserol o ansawdd uchel

## Y Llwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Wrth argymell archwiliadau o'r ymateb aml-asiantaeth lleol i gam-drin plant yn rhywiol, awgrymodd y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant y gallai'r gweithgaredd hwn "gynnwys mabwysiadu dull llwybr".

Nododd y panel **Lwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol** y Ganolfan CPRh – adnodd deinamig ar-lein sy'n cefnogi ac yn grymuso gweithwyr proffesiynol ar draws y rhwydwaith aml-asiantaeth i nodi a llywio'r camau y dylent eu cymryd pryd bynnag y bydd pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn codi – fel enghraifft o ganllawiau clir. Yn dilyn hynny, roedd 'diweddariad cynnydd' Llywodraeth y DU ar fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol (Y Swyddfa Gartref, 2025) yn cynnwys ymrwymiad cyllid i wreiddio'r Llwybr Ymateb mewn partneriaethau amlasiantaeth.

Mae'r Llwybr Ymateb ar gael yn rhad ac am ddim, ac mae'n nodi sut mae ymateb i bryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ar adegau allweddol, gan ganolbwyntio drwy gydol y broses ar ddiwallu anghenion y plentyn a'i deulu. Mae'n dechrau drwy edrych ar amrywiaeth o sefyllfaoedd lle gall unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant ddechrau poeni bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol – boed hynny y tu mewn neu'r tu allan i amgylchedd y teulu, ac yn ymwneud ag oedolion a/neu blant eraill. Mae camau diweddarach y Llwybr Ymateb yn ymdrin â phwyntiau allweddol ynghylch dwy elfen annibynnol ymatebion amddiffyn plant a chyfiawnder troseddol, fel bod:

- y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosesau hyn yn deall eu cyfrifoldebau penodol ac arferion da ar wahanol gamau

- bod gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn yn gwybod beth sy'n digwydd i'r plentyn ar bob cam.

Gan adeiladu ar ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol, mae'r Llwybr Ymateb yn cyfuno tystiolaeth ymchwil â mewnbwn gan arweinwyr ymarfer traws-asiantaeth ac ymgynghori ag arbenigwyr drwy brofiad, gan dynnu sylw at eu lleisiau drwy gydol y broses. Mae'n darparu dolenni i amrywiaeth o adnoddau, canllawiau ac offer, i gyd wedi'u seilio ar dystiolaeth ac arferion da, i gefnogi gweithwyr proffesiynol ymhellach yn eu gwaith.

Drwy helpu eich gweithlu i ystyried a phenderfynu beth mae pob plentyn unigol ei eisiau a'i angen, ac i gadw diogelwch a lles plant yn ganolog i'w hymateb, gall y Llwybr Ymateb gryfhau gallu eich partneriaeth i ymateb yn effeithiol ac yn gefnogol i gam-drin plant yn rhywiol.

Os ydych chi'n bwriadu rhoi'r Llwybr Ymateb ar waith ar draws eich partneriaeth, mae ein cyhoeddiad ***Starting Out on the Child Sexual Abuse Response Pathway A Guide for Local Partnerships*** yn darparu gwybodaeth a chyngor defnyddiol.

## 10.2 Oedolion sydd wedi dioddef/goroesi cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod

Gall cam-drin plant yn rhywiol gael effeithiau gydol oes, yn enwedig os nad yw'r plentyn yn cael cymorth ar y pryd. Mae'n debygol y bydd eich gweithlu'n cefnogi teuluoedd lle mae oedolyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol pan oedd yn blentyn, ac efallai na fydd erioed wedi dweud wrth neb. Er mwyn helpu i liniaru'r effeithiau y gallai'r oedolion hyn fod yn eu profi o hyd, gall eich partneriaeth gymryd y camau canlynol:

1. **Hyrwyddo system sy'n cydnabod effeithiau cam-drin plant yn rhywiol.**

   Ymgorffori hyfforddiant ar effeithiau cam-drin plant yn rhywiol mewn llwybrau dysgu ynghylch diogelu, cam-drin domestig, amenedigol, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd ac iechyd meddwl ar gyfer ymarferwyr ar draws y gweithlu.

2. **2. Hwyluso mynediad at gymorth arbenigol**

   Hyrwyddo gwasanaethau lleol/rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion, gan gynnwys sefydliadau yn y sector gwirfoddol/cymunedol sy'n cynnig cwnsela, cymorth gan gymheiriaid, ac eiriolaeth. Mae gwybodaeth am y gwasanaethau hyn ar gael yng **Nghyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth** y Ganolfan CPRh.

   Cydnabod lle mae'r bylchau yn y ddarpariaeth hon, ac adolygu eich trefniadau comisiynu (neu weithio gyda chomisiynwyr gwasanaethau eraill) gyda'r bwriad o lenwi'r bylchau hyn fel bod dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig amserol o ansawdd uchel, ni waeth pryd y digwyddodd y cam-drin neu y rhoddwyd gwybod amdano.

3. **Creu mannau diogel**

   Annog asiantaethau a sefydliadau yn eich partneriaeth i sicrhau bod amgylcheddau lle mae dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion yn teimlo'n ddiogel i siarad am eu profiadau.

   Cefnogi'r defnydd o iaith ac ymatebion sy'n sensitif i drawma ar draws yr holl wasanaethau rheng flaen.

4. **Cynnwys arbenigwyr drwy brofiad mewn gwaith gwella systemau**

   Cynnwys lleisiau dioddefwyr/goroeswyr mewn adolygiadau cynllunio strategol, dylunio gwasanaethau a dysgu, gan sicrhau bod eu profiadau'n llywio ymatebion gwell i blant heddiw.

   Datblygu llwybrau moesegol y gellir ymddiried ynddynt i ddioddefwyr/goroeswyr gyfrannu at ddatblygu polisïau ac ymarfer – sicrhau eu bod yn cael eu talu yr un faint ag aelodau staff sy'n ymwneud â'r gwaith datblygu hwn, a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth os oes angen.

## 10.3 Teuluoedd pobl sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol neu sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Bydd gan deuluoedd pobl sydd wedi achosi niwed anghenion sylweddol sy'n aml yn cael eu hanwybyddu. Dyma rai ffyrdd y gallwch sicrhau bod eich dull gweithredu yn ystyried yr anghenion penodol hynny:

1. **Deall yr effaith ar y teulu cyfan**

   Mae canllaw ***Rheoli Risg a Thrawma ar ôl Troseddu Rhywiol Ar-lein*** y Ganolfan CPRh yn tynnu sylw at y ffaith y gall arestio rhiant, neu ddarganfod ei droseddu, arwain at deimladau llethol posibl o sioc, ofn a dryswch i'w partner a'u plant. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr ar draws y gweithlu amlasiantaeth yn gallu cydnabod bod y crych-effeithiau'n ymestyn i bob aelod o'r teulu, a gwybod beth yw elfennau allweddol ymateb cadarnhaol, gwybodus ac anfeirniadol.

   Gall aelodau teulu plant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol brofi'r un teimladau; neu, efallai y byddant yn ceisio gwadu neu leihau'r ymddygiad, fel y mae rhai rhieni'n ei wneud ar ôl darganfod y gallai eu plentyn fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Dylai ymarferwyr hefyd gofio y gallai plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol fod wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel cam-drin neu esgeulustod, neu rieni â phroblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau; os felly, gallai'r materion hyn yn y teulu gael eu gwaethygu pan ddaw ymddygiad y plentyn yn hysbys. Fel y nodwyd yn adran 8.5, mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn mabwysiadu dull teulu cyfan wrth ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol.

   Lle ceir ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cynnwys brodyr a chwiorydd, dylid ystyried hyn bob amser yng nghyd-destun y teulu ehangach ac ni ddylid ei ystyried ar wahân i ddeinameg a gweithrediad y teulu. Dylai ymarferwyr gofio bod hyn yn effeithio ar holl aelodau'r teulu mewn rhyw ffordd, a bydd eu hymatebion gwahanol yn effeithio ar ei gilydd. Mae canllaw ***Ymddygiad Rhywiol rhwng Brodyr a Chwiorydd*** y Ganolfan CPRh yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

2. **Hwyluso mynediad at gymorth arbenigol**

   Hyrwyddo gwasanaethau lleol/rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer teuluoedd pobl sydd wedi niweidio, gan gynnwys mudiadau yn y sector gwirfoddol/cymunedol sy'n cynnig cwnsela, cefnogaeth gan gymheiriaid, ac eiriolaeth.

Cydnabod lle mae'r bylchau yn y ddarpariaeth hon, ac adolygu eich trefniadau comisiynu (neu weithio gyda chomisiynwyr gwasanaethau eraill) gyda'r bwriad o lenwi'r bylchau hynny fel bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar gymorth amserol.

Mae angen ymateb cefnogol ar blant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol hefyd, yn ogystal ag oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol neu sydd mewn perygl o wneud hynny. Ymdrinnir â dull amlasiantaethol o gefnogi a rheoli'r grwpiau hyn ym Mhennod 8.

11.

# Datblygu'r gweithlu

Mae penodau 8-10 wedi nodi amrywiaeth o feysydd lle gallai fod angen i ymarferwyr ar draws eich partneriaeth ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder. Mae'r bennod hon yn edrych ar ffyrdd y gallwch eu helpu i wneud hynny.

Mae llawer o fythau amlwg ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, felly mae'n hanfodol sicrhau bod unrhyw adnoddau neu hyfforddiant rydych chi'n eu defnyddio yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'n bwysig peidio â meddwl am weithgareddau hyfforddi a datblygu fel creu llwyth gwaith ychwanegol, gan y dylai helpu eich staff i weithio'n 'ddoethach' ac yn fwy effeithiol.

## 11.1 Hyfforddiant

> *Nid oedd ymarferwyr ar draws pob asiantaeth yn nodi ac yn gweithredu ar arwyddion o gam-drin rhywiol fel mater o drefn. Roedd hyn, yn bennaf, oherwydd diffyg hyfforddiant ac adnoddau a oedd yn eu cefnogi a'u grymuso i adnabod ac ymateb i arwyddion ... (Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant, 2024:11)*

Os yw eich asesiad o anghenion hyfforddi (gweler Pennod 6) wedi nodi bod angen hyfforddiant ar eich gweithlu amlasiantaeth mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol, bydd angen i chi feddwl sut gallwch chi ddiwallu eu hanghenion hyfforddi. Er enghraifft, pa sgiliau sydd gennych chi 'yn fewnol' a ble bydd angen i chi chwilio am arbenigedd allanol?

Mae'r Ganolfan CPRh wedi cynhyrchu **cwrs eDdysgu**, sy'n addas i ymarferwyr ar draws eich partneriaeth a thu hwnt, ar adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn amgylchedd y teulu. Mae'r cwrs yn cymryd dim ond 90 munud i'w gwblhau, ac mae'n cynnwys tri modiwl diddorol, gyda thasgau rhyngweithiol, esboniadau fideo ac asesiad terfynol. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer ymarferwyr ar bob cam o'u gyrfaoedd, p'un a ydynt yn newydd i ddiogelu neu y byddent yn elwa ar gwrs gloywi.

Gellir cwblhau'r cwrs eDdysgu yn rhad ac am ddim, neu rydym yn cynnig dewisiadau hawdd a fforddiadwy ar gyfer ei ymgorffori'n uniongyrchol yn eich darpariaeth dysgu a datblygu chi (neu eich partneriaid unigol) – fel rhan o brosesau cynefino ar gyfer staff newydd, er enghraifft. Gallwch ychwanegu eich brand eich hun at y cwrs, dewis a ddylid ei blannu yn eich llwyfan hyfforddi presennol, a chael gafael ar ddata i fonitro cynnydd a pherfformiad staff. Anfonwch e-bost at **training@ csacentre.org.uk** i gael rhagor o wybodaeth.

Ar ben hynny, mae'r Ganolfan CPRh yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi hanner diwrnod a diwrnod llawn i weithwyr proffesiynol, ar bynciau sy'n ymwneud â llawer o agweddau ar ddeall ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Cewch ragor o wybodaeth yn ein **llyfryn hyfforddi**.

Cofiwch mai dim ond un rhan o ddatblygu'r gweithlu yw hyfforddiant, a bydd angen i chi ystyried sut rydych chi'n sicrhau bod yr hyn rydych chi'n ei ddysgu o hyfforddiant yn cael ei wreiddio'n llawn mewn ymarfer.

## 11.2 Adnoddau i gefnogi ymarfer proffesiynol

Mae'r Ganolfan CPRh yn cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys:

- ***Cyfathrebu gyda Phlant***
  Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, a'i nod yw eu helpu i gyfathrebu â phlant mewn amrywiaeth o gyd-destunau – o'r adeg pan fydd pryderon ynghylch cam-drin rhywiol yn codi am y tro cyntaf i'r adeg pan fydd ymchwiliad yr heddlu'n mynd rhagddo neu wedi dod i ben.

- ***Cefnogi Rhieni a Gofalwyr***
  Canllaw i ddeall ymatebion cychwynnol rhieni i gam-drin eu plentyn yn rhywiol, a darparu ymateb cefnogol iddynt.

- ***Rheoli Risg a Thrawma ar ôl Troseddu Rhywiol Ar-lein***
  Cyngor i ymarferwyr gwaith cymdeithasol sy'n asesu ac yn cefnogi teuluoedd lle mae rhiant yn destun ymchwiliad gan yr heddlu am gael gafael ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywioll.

- ***Ymddygiad Rhywiol rhwng Brodyr a Chwiorydd***
  Canllaw i helpu ymarferwyr i lywio penderfyniadau allweddol ar wahanol gamau pan fydd pryderon am ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd wedi codi.

- ***Cynllunio Diogelwch mewn Addysg***
  Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu'n bennaf at ymarferwyr mewn lleoliadau addysg, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae ein cyfres ***Ymarfer ategol*** o 12 ffilm fer yn adeiladu ar yr adnoddau hyn, i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i ymarferwyr nodi ac ymateb i bryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol.

Mae ein holl adnoddau ymarfer yn ategu Llwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol y Ganolfan CPRh – gweler Pennod 10.

## 11.3 Goruchwyliaeth a chyfarfodydd tîm

Gall trafodaethau myfyriol – sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth y maent wedi gweithio gyda nhw, neu ar eu credoau a'u hagweddau eu hunain – fod yn amhrisiadwy o ran helpu ymarferwyr ar draws eich partneriaeth i ganolbwyntio mwy a gwella eu hymarfer, er mwyn iddynt allu darparu ymateb mwy ystyriol ac effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol.

Wedi'i gynllunio ar gyfer 'goruchwylwyr ymarfer' ym maes gofal cymdeithasol plant, ond mae hefyd yn berthnasol i unrhyw un sy'n rheoli neu'n goruchwylio ymarferwyr yn y maes hwn, mae ein canllaw ***Defnyddio Goruchwyliaeth a Chyfarfodydd Tîm i Wella Ymatebion i Gam-drin Plant*** yn Rhywiol yn egluro sut y gellir hwyluso'r trafodaethau hyn mewn sesiynau goruchwylio unigol a grŵp, ac mewn cyfarfodydd tîm. Mae hefyd yn esbonio sut i ddefnyddio amrywiaeth o gyhoeddiadau'r Ganolfan CPRh – ac yn enwedig ein cyfres **Negeseuon Allweddol o Ymchwil** – i ddarparu sylfaen dystiolaeth a fydd yn sail i fyfyrio a thrafodaeth. Yn ogystal â gwella eu hymarfer, gall hyn hefyd helpu ymarferwyr i gyflawni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r canllaw yn cynnwys cyngor ar gynnal lles staff, ac mae'n cydnabod yr angen i ymarferwyr gael amser a lle i fyfyrio ar eu gwaith a datblygu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth – rhywbeth y dylai eich strategaeth fynd i'r afael ag ef.

### Pwynt myfyrio

Efallai y bydd gan lawer o aelodau o'ch gweithlu eu hunain brofiadau o gam-drin rhywiol (boed hynny yn ystod plentyndod neu pan fyddant yn oedolion), ac efallai na fyddant erioed wedi dweud wrth neb amdano. Ystyriwch beth y gall eich partneriaeth ei wneud i sicrhau na fyddant yn ofni cael eu 'barnu' os byddant yn dweud wrth eu rheolwr neu eu cydweithwyr, a gwnewch yn siŵr bod system ar waith i'w cefnogi os byddant yn dweud wrth rywun.

# 12. Rhoi cynllun gweithredu at ei gilydd

Drwy ystyried pob un o'r elfennau craidd a drafodir yn y pedair pennod flaenorol, dylech allu nodi'r gweithgareddau y mae eich partneriaeth am gymryd rhan ynddynt o ran cam-drin plant yn rhywiol, fel eich bod yn cyflawni'r nodau strategol a nodwyd gennych yn eich Damcaniaeth Newid (gweler Pennod 7).

Gallwch wedyn nodi'r camau y mae angen i chi eu cymryd er mwyn i'r bartneriaeth fod yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny (neu eu gwella), gyda phob cam gweithredu wedi'i anelu at gyrraedd un o'ch canlyniadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r nodau strategol hynny.

Mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gweithio ar gyflawni eich holl nodau strategol ar yr un pryd, felly bydd angen i chi flaenoriaethu'r camau gweithredu rydych wedi'u nodi. Bydd sut y gwnewch hyn, wrth gwrs, yn dibynnu ar eich amgylchiadau lleol/rhanbarthol a'ch blaenoriaethau strategol.

Pan fyddwch yn nodi'r camau i'r bartneriaeth eu cymryd, rydym yn eich cynghori i'w nodi mewn cynllun gweithredu syml, gyda phob cam gweithredu'n gysylltiedig â chanlyniad penodol arfaethedig o'ch Damcaniaeth Newid ac yn cael amserlen ar gyfer dechrau/cwblhau. Efallai y byddwch am fabwysiadu dull fesul cam o weithredu eich strategaeth leol/ranbarthol, gyda chamau gwahanol i'w cymryd ar bob cam.

Dangosir templed enghreifftiol o gynllun gweithredu isod.

| Nod strategol 1 | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r nod strategol** | | | |
| **Canlyniadau arfaethedig** | **Cam gweithredu** | **Asiantaeth arweiniol/cyfrifol** | **Dyddiadau cychwyn/ cwblhau** |
| Canlyniad 1 | Cam Gweithredu 1a | | |
| | Cam Gweithredu 1b | | |
| Canlyniad 2 | Cam Gweithredu 2a | | |

# Rhan C. Rhoi eich strategaeth ar waith

Ar ôl i chi sefydlu elfennau craidd eich ymateb strategol a datblygu cynllun gweithredu, mae'n bryd symud o gynllunio i weithredu. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull strwythuredig a chydweithredol o adolygu'r drafft, sicrhau ymrwymiad yr holl bartneriaid, a rhoi'r strategaeth ar waith gydag atebolrwydd ac adnoddau clir.

Mae'r rhan olaf hon o'r canllaw yn amlinellu'r hyn y byddwch am ei ystyried fel bod eich strategaeth, yn ogystal â bod yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i gwreiddio'n llawn ar draws systemau lleol/rhanbarthol i sbarduno newid ystyrlon a pharhaus.

.

# 13. Cwblhau eich strategaeth

Ar ôl ystyried holl elfennau craidd strategaeth, a nodi'r camau gweithredu a fydd yn eich galluogi i gyflawni'r elfennau craidd hyn, dylech fod yn barod i roi eich strategaeth ar bapur.

## 13.1 Llunio eich strategaeth ddrafft

Awgrymwn eich bod yn dilyn y strwythur a nodir ym Mhennod 2 i lunio strategaeth ddrafft. Wrth i chi weithio drwy hyn, gwnewch yn siŵr bod eich drafft yn bodloni'r meini prawf llwyddiant canlynol:

- **Eglurder:** A yw'r strategaeth wedi'i hysgrifennu'n glir ac yn hygyrch i'r rhai a fydd yn ei defnyddio?
- **Cwmpas:** A yw'n mynd i'r afael â'r holl feysydd allweddol – atal, canfod, ymateb ac adfer – yn seiliedig ar eich cyd-destun lleol/rhanbarthol?
- **Dichonoldeb:** A yw rolau, cyfrifoldebau, amserlenni a chanlyniadau yn realistig ac wedi'u diffinio'n glir?
- **Cysondeb:** A yw'r strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol/rhanbarthol, canllawiau cenedlaethol, a dysgu o adolygiadau cenedlaethol a lleol/rhanbarthol?
- **Parodrwydd:** A oes systemau, adnoddau a strwythurau llywodraethu ar waith i gefnogi gweithredu?

Hefyd, sicrhewch fod eich cynllun gweithredu – a fydd yn arwain y gwaith o gyflawni'r strategaeth – yn trosi blaenoriaethau strategol yn gamau gweithredu penodol, mesuradwy. Dylai gynnwys:

- tasgau ac amcanion clir
- arweinwyr penodedig ac asiantaethau atebol
- amserlenni a cherrig milltir
- dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd ac effaith.

## 13.2 Adolygu'r strategaeth ddrafft

Cyn i'ch strategaeth gael ei chwblhau a'i rhoi ar waith, mae'n hanfodol cynnal proses adolygu gadarn i sicrhau ei bod yn berthnasol i'r cyd-destun a bod partneriaid allweddol ar draws y system ddiogelu yn ei chefnogi'n llawn. Bydd adolygiad trylwyr yn helpu i ganfod unrhyw fylchau, sicrhau eglurder pwrpas, a meithrin cydberchnogaeth ar y dull gweithredu terfynol.

Yn ogystal â gofyn i holl aelodau eich grŵp llywio adolygu'r strategaeth ddrafft, mae'n ddefnyddiol gofyn am sylwadau gan bobl sydd heb fod yn rhan o'r broses hon. Gofynnwch i adolygwyr wirio'r pum maen prawf uchod, yn ogystal ag edrych ar agweddau sy'n teimlo'n arbennig o berthnasol iddyn nhw.

# Rhoi eich strategaeth ar waith

14.

Ar ôl i'ch strategaeth gael ei hadolygu a'i chwblhau, dylid canolbwyntio ar ei rhoi ar waith yn effeithiol.

## 14.1 Gwreiddio'r strategaeth mewn systemau lleol/ rhanbarthol

Er mwyn i'ch strategaeth gael effaith barhaus, rhaid iddi gael ei hintegreiddio'n llawn i'r prosesau a'r strwythurau craidd sy'n gyrru eich gwaith; bydd hyn yn sicrhau ei bod yn dod yn rhan o ymarfer bob dydd yn hytrach na dogfen annibynnol.

- **Integreiddio amcanion strategol i'r prosesau diogelu craidd**

  Ymgorffori eich blaenoriaethau a nodwyd mewn mecanweithiau amlasiantaethol allweddol fel y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH), asesiadau cymorth cynnar, archwiliadau achos ac adolygiadau dysgu. Er enghraifft, os yw gwella adnabod yn gynnar yn flaenoriaeth, ystyriwch sut mae prosesau MASH, adnoddau sgrinio a throthwyon yn adlewyrchu'r ffocws hwn.

- **Diweddaru offer a llwybrau gweithredol**

  Adolygu a diwygio llwybrau atgyfeirio, templedi asesu a manylebau gwasanaeth, lle bo angen, i gyd-fynd â'r strategaeth. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, ymgorffori ysgogiadau penodol sy'n ymwneud ag arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol mewn ffurflenni asesu, neu egluro sut y gellir cael gafael ar wasanaethau arbenigol.

- **Alinio â chomisiynu a chynllunio gwasanaethau**

  Sicrhau bod eich strategaeth yn hysbysu'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys cymorth arbenigol i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd. Dylai amcanion strategol hefyd gael eu hadlewyrchu mewn cytundebau lefel gwasanaeth a fframweithiau monitro contractau.

- **Defnyddio strwythurau llywodraethu presennol i gefnogi'r ddarpariaeth**

  Lle bo'n briodol, ymgorffori gweithredu a monitro yng ngwaith is-grwpiau presennol neu fforymau partneriaeth (e.e. Is-grwpiau Sicrhau Ansawdd neu Ddysgu a Datblygu).

Drwy wreiddio eich strategaeth yn y systemau a'r strwythurau hyn, gallwch sicrhau ei bod yn dylanwadu ar ymarfer o ddydd i ddydd, yn sbarduno gwelliant ac yn cefnogi atebolrwydd ar draws y bartneriaeth.

## 14.2 Cefnogi'r gweithlu ar draws eich partneriaeth

Mae gweithredu effeithiol yn dibynnu ar weithlu hyderus a gwybodus. Ystyriwch pa sesiynau briffio, arweiniad neu oruchwyliaeth y gallai fod eu hangen i sicrhau bod ymarferwyr yn deall y strategaeth a'u rôl o ran ei chyflawni.

## 14.3 Cyfleu'r strategaeth yn glir ac yn gyson

Lansiwch y strategaeth gyda chynllun cyfathrebu clir. Defnyddiwch fformatau hygyrch i ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys ymarferwyr, plant a theuluoedd, a sefydliadau cymunedol. Bydd cyfathrebu parhaus yn helpu i gynnal gwelededd ac annog ymgysylltiad parhaus.

15.

# Mesur effaith a gwelliant parhaus

Mae mesur effaith eich strategaeth yn hanfodol er mwyn deall beth sy'n gweithio, nodi bylchau, a gwneud gwelliannau dros amser. Mae hefyd yn sicrhau atebolrwydd ac yn helpu i gynnal momentwm ar draws y bartneriaeth.

## 15.1 Monitro gweithgarwch ac effaith

Mae monitro cynnydd yn barhaus yn erbyn eich cynllun gweithredu yn hanfodol er mwyn rhoi eich strategaeth ar waith yn llwyddiannus, a bydd yn helpu i sicrhau bod eich adroddiadau blynyddol yn cyfleu effaith eich strategaeth yn glir dros amser.

Disgrifiodd Pennod 7 sut y gallwch ddatblygu fframwaith gwerthuso y gellir ei ddefnyddio i wirio eich cynnydd o ran cyflawni eich nodau strategol a'r canlyniadau arfaethedig. Defnyddiwch y fframwaith hwn i olrhain y broses o roi camau gweithredu ar waith (e.e. yr hyfforddiant a ddarparwyd, yr adnoddau a ddiweddarwyd) sy'n gysylltiedig â phob canlyniad, gan ddefnyddio cyfuniad o ddata meintiol a gwybodaeth ansoddol i greu darlun cyflawn o gynnydd.

Cofiwch hefyd fod canllawiau statudol yn gofyn am graffu *annibynnol* ar effeithiolrwydd eich trefniadau diogelu amlasiantaeth.

## 15.2 Defnyddio archwiliadau aml-asiantaeth i asesu ymarfer

Mae archwiliadau aml-asiantaeth yn arf allweddol arall ar gyfer gwerthuso pa mor dda y mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith. Maent yn darparu ffordd strwythuredig o archwilio sefyllfaoedd go iawn, nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, a phrofi a yw amcanion strategol – fel canfod yn gynnar neu gydweithio effeithiol – yn cael eu hadlewyrchu mewn gweithgarwch rheng flaen. Dylid defnyddio canfyddiadau i hysbysu'r gwaith o ddatblygu ymarfer ac adolygu strategol.

## 15.3 Sefydlu cylchoedd adborth ar draws y system

Creu cyfleoedd rheolaidd i gael adborth gan ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, y rheini sydd â phrofiad bywyd), asiantaethau/sefydliadau partner a'r swyddogaeth craffu annibynnol. Gall y cyfleoedd hyn gynnwys:

- arolygon ymarferwyr neu grwpiau ffocws
- mecanweithiau adborth wedi'u gwreiddio mewn goruchwyliaeth neu gyfarfodydd tîm
- adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth o wasanaethau a gomisiynwyd
- defnyddio elfen 'cyfaill beirniadol' y swyddogaeth graffu annibynnol.

Mae sicrhau bod yr adborth hwn yn cyrraedd y fforymau cywir – fel is-grwpiau gweithredu neu weithrediaeth eich partneriaeth – yn hanfodol ar gyfer dysgu ystyrlon ac arweinyddiaeth ymatebol.

## 15.4 Ymgorffori cylchoedd adolygu yn eich gwaith cynllunio strategol i sicrhau gwelliant parhaus

Ni ddylai eich strategaeth fod yn statig. Dylech ymgorffori cylch adolygu ffurfiol – gydag adolygiadau o leiaf unwaith y flwyddyn – i asesu cynnydd yn erbyn amcanion strategol, myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o archwiliadau, adolygiadau a data, ac ymateb i newidiadau yn y dirwedd leol/ranbarthol neu genedlaethol.

Dylai prif elfennau'r broses adolygu gynnwys:

- adolygu data perfformiad, canfyddiadau archwiliad, ac adborth
- diweddaru blaenoriaethau neu gamau gweithredu mewn ymateb i ddysgu
- cyhoeddi neu rannu diweddariadau cynnydd â rhanddeiliaid.

Drwy wreiddio mecanweithiau cadarn, aml-asiantaeth ar gyfer mesur effaith a dysgu o weithredu, mae'r strategaeth yn dod yn ddogfen fyw sy'n ymateb, yn esblygu ac yn dod yn fwyfwy effeithiol dros amser.



# Cyfeiriadau ac atodiad

# Dogfennau cyfeiriol


Ali, N., Butt, J. a Phillips, M. (2021) *Improving Responses to the Sexual Abuse of Black, Asian and Minority Ethnic Children*. Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. **https://doi.org/10.47117/WYXG1699**

Gofal Cymdeithasol Cymru (2019) *Gweithdrefnau Diogelu Cymru: System Ddiogelu Effeithiol.* Caerdydd: Gofal Cymdeithasol Cymru. **https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c1/c1-p3/**

Hallett, S., Verbruggen, J., Buckley, K. a Robinson, A. (2019) *'Keeping Safe?' An Analysis of the Outcomes of Work with Sexually Exploited Young People in Wales.* Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. **www.cardiff.ac.uk/research/explore/find-a-project/view/1513282-keeping-safe**

Jones, L., Bellis, M., Wood, S., Hughes, K., McCoy, E., Eckley, L., Bates, G., Mikton, C., Shakespeare, T. ac Officer, A. (2012) Prevalence and risk of violence against children with disabilities: A systematic review and meta-analysis of observational studies. *The Lancet,* 380(9845):899–907. **https://doi.org/10.1016/S0140-6736(12)60692-8**

Karsna, K. a Kelly, L. (2021) *The Scale and Nature of Child Sexual Abuse: Review of Evidence (revised edition).* Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. **https://doi.org/10.47117/OBKC1345**

Kewley, S. a Karsna, K. (2025)*Child Sexual Abuse in 2023/24: Trends in Official Data.* Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. **https://doi.org/10.47117/IZAK2457**

Llywodraeth Cymru (2025) *Y Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru 2025–2035 – Drafft Ymgynghori.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. **www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol**

Llywodraeth Cymru (2019) *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol: Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. **www.llyw.cymru/atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol-cynllun-gweithredu-cenedlaethol**

Llywodraeth Cymru (2016) *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. **www.llyw.cymru/diogelu-pobl-cyflwyniad**

Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2024) *"I Wanted Them All to Notice": Protecting Children and Responding to Child Sexual Abuse in the Family Environment.* Llundain: PAYDP. **www.gov.uk/government/publications/national-review-into-child-sexual-abuse-within-the-family-environment**

Priebe, G. a Svedin, C. (2008) Child sexual abuse is largely hidden from the adult society: An epidemiological study of adolescents' disclosures. *Child Abuse & Neglect,* 32(12):1095–1108. **https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2008.04.001**

Radakin, F., Scholes, A., Soloman, K., Thomas-Lacroix, C. a Davies, A. (2021) *The Economic and Social Cost of Contact Child Sexual Abuse.* Llundain: Y Swyddfa Gartref.

Salter, M., Wong, W., Breckenridge, J., Scott, S., Cooper, S. a Peleg, N. (2021) *Production and Distribution of Child Sexual Abuse Material by Parental Figures (Trends & Issues in Crime and Criminal Justice, No.616).* Canberra: Australian Institute of Criminology. **https://doi.org/10.52922/ti04916**

Yr Adran Addysg (2023) *Working Together to Safeguard Children 2023: A Guide to Multi-agency Working to Help, Protect and Promote the Welfare of Children.* Llundain: Yr Adran Addysg.

Y Swyddfa Gartref (2025) *Tackling Child Sexual Abuse: Progress Update.* London: Y Swyddfa Gartref. **www.gov.uk/government/publications/tackling-child-sexual-abuse-progress-update**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) *Child Sexual Abuse in England and Wales: Year Ending March 2019.* Titchfield: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. **www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/childsexualabuseinenglandandwales/yearendingmarch2019**

# Atodiad: Argymhellion o'r adolygiad cenedlaethol o gam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol

Roedd adroddiad y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant ym mis Tachwedd 2024, ***"I Wanted Them All to Notice"***, yn gwneud y chwe argymhelliad canlynol ar gyfer partneriaid diogelu. Nododd fod llawer o'r argymhellion hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y canllawiau presennol neu'n cael eu caniatáu ganddynt, gan ychwanegu: "Nid oes angen i bartneriaethau lleol aros i'r llywodraeth weithredu i ddechrau gwneud newidiadau ar lefel leol."

- **Argymhelliad 1: Cynllun strategol**

  Dylai partneriaid diogelu ystyried canfyddiadau'r adolygiad cenedlaethol hwn a datblygu cynllun gweithredu lleol i ymateb i'w argymhellion oherwydd mae'n effeithio ar ymarfer amlasiantaeth lleol.

- **Argymhelliad 2: Gwybodaeth, sgiliau a hyder proffesiynol**

  Dylai partneriaid diogelu gymryd rhan mewn asesiad anghenion hyfforddi aml-asiantaeth, er mwyn sicrhau bod eu hymarferwyr yn gallu cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Dylai hyn gynnwys sicrhau'r dystiolaeth orau drwy hyfforddiant ar y cyd.

  Efallai y bydd yr ymateb i'r asesiad hwn yn gofyn am fentrau hyfforddi aml-asiantaeth ac un asiantaeth, mewn amrywiaeth o fformatau, wedi'u hategu gan adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

  Dylent hefyd roi sylw penodol i rôl ysgolion, y blynyddoedd cynnar a lleoliadau addysg eraill a sut gallant adnabod a helpu plant y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt.

- **Argymhelliad 3: Ymholiadau ac ymchwiliadau**

  Dylai partneriaid diogelu archwilio ansawdd penderfyniadau amlasiantaeth lleol wrth ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol. Gall hyn gynnwys mabwysiadu dull llwybr, defnyddio canllawiau ynghylch arwyddion a dangosyddion cam-drin rhywiol ac adolygu dogfennau trothwy ynghylch asesu angen a risg.

  Dylai asiantaethau sicrhau bod canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd yn cael eu dilyn ac, ar ddiwedd ymholiadau adran 47 ac ymchwiliadau'r heddlu, bod trafodaeth aml-asiantaeth yn cael ei chynnal i ystyried y risg i'r plant a sut y byddant yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi.

  Ni ddylid defnyddio'r term 'dim camau pellach' yn yr amgylchiadau hyn gan y deellir yn rhy aml ei fod yn golygu na ddigwyddodd y cam-drin. Mae'r term 'dim camau pellach gan yr heddlu ar hyn o bryd' yn fwy priodol. Dylid cael cofnod clir o pam mae ymchwiliad troseddol wedi cael ei gau a bod y wybodaeth hon wedi cael ei rhannu ag asiantaethau perthnasol eraill.

  Lle bo'r niwed wedi'i gyflawni gan frawd neu chwaer, rhaid gwneud cynlluniau ar gyfer yr holl blant yn y teulu, gan fynd i'r afael ag anghenion y plentyn sydd wedi niweidio yn ogystal â'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio, ac unrhyw frodyr neu chwiorydd eraill.

- **Argymhelliad 4: Asesu pobl sy'n peri risg o niwed rhywiol**

  Dylai partneriaethau diogelu, gyda'r holl asiantaethau perthnasol fel y Gwasanaeth Prawf, adolygu sut mae pobl sy'n peri risg o niwed rhywiol ac sy'n dod i gysylltiad â phlant yn cael eu hasesu a'u rheoli, gyda gwybodaeth am risg yn cael ei rhannu ar draws asiantaethau mewn ffordd amserol. Dylai partneriaid ystyried defnyddio gorchmynion sifil a mesurau eraill yn effeithiol i reoli'r risg gan yr unigolyn sy'n peri pryder.

  Mae tystiolaeth bod angen i bartneriaid diogelu a'r gwasanaeth prawf weithio gyda'i gilydd i greu un pwynt cyswllt, bod â threfniadau rhannu gwybodaeth cadarn a hyrwyddo dysgu effeithiol ar draws asiantaethau.

- **Argymhelliad 5: Siarad â phlant**

  Dylai partneriaid diogelu gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn eu hardal (gan gynnwys gofalwyr maeth) yn deall ac yn hyderus wrth siarad yn uniongyrchol â phlant, a theuluoedd, am bryderon ynghylch cam-drin rhywiol, gan roi ystyriaeth briodol i ethnigrwydd, iaith ac anabledd.

  Mae angen i bartneriaid diogelu sicrhau bod cynlluniau sensitif ac effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag effaith unrhyw benderfyniad i ddod ag ymchwiliad i ben ar blant.

- **Argymhelliad 6: Iechyd**

  Dylai partneriaid diogelu sicrhau bod yna lwybrau lleol ar gyfer atgyfeirio plant ar gyfer asesiadau meddygol fforensig priodol ac asesiadau iechyd eraill, ar gyfer cam-drin rhywiol diweddar a heb fod yn ddiweddar, a bod ymarferwyr diogelu yn eu deall.

  Mae hefyd yn bwysig bod trafodaethau strategol am blant, lle mae pryderon am gam-drin rhywiol posibl, yn cynnwys cynrychiolydd iechyd priodol sydd naill ai â phrofiad clinigol o asesu lle mae amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol diweddar neu nad yw'n ddiweddar neu, o leiaf, sydd wedi ymgynghori â gweithiwr proffesiynol sydd â'r arbenigedd hwn.

Sabin, N. (2025) *Datblygu Eich Ymateb Strategol i Gam-drin Plant yn Rhywiol: Canllaw ar gyfer Partneriaethau Diogelu Plant.* Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

The CSA Centre
Tanners Lane,
Barkingside,
Ilford, Essex,
IG6 1QG.

Tynnwyd y ffotograffau yn y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio actorion ac nid ydynt yn darlunio sefyllfaoedd gwirioneddol.